




Bwrdd Diogelu Annibynnol  
Cenedlaethol Cymru

National Independent  
Safeguarding Board Wales



# Adroddiad Blynyddol 2019-20





# Cynnwys

---

<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>4</b>
<b>Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol</b> .....	<b>5</b>
Dyletswyddau a chyfrifoldebau .....	5
Gofynion yr Adroddiad Blynyddol .....	5
Aelodau .....	6
<b>Cymorth a chynghor y Bwrdd Cenedlaethol i Fyrddau Diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol</b> .....	<b>7</b>
<b>Gwaith arall a gyflawnwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol, neu gan grwpiau atodol a sefydlwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol, a'r canlyniadau a gyflawnwyd</b> .....	<b>8</b>
<b>Adroddiad ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru</b> .....	<b>17</b>
<b>Argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella trefniadau</b> .....	<b>38</b>

## Cyflwyniad

---

Mae Adroddiad Blynyddol 2019-2020 y Bwrdd Cenedlaethol yn ymdrin â chyfnod a oedd cyn y cyfnod clo cenedlaethol a gyflwynwyd o ganlyniad i'r pandemig byd-eang sydd wedi'i achosi gan Covid-19. Fodd bynnag, mae'n cael ei gyhoeddi ar adeg pan fo'r pandemig wedi effeithio ar bob agwedd ar ddiogelu yng Nghymru, ac yn fuan ar ôl diwedd yr ail gyfnod clo cenedlaethol yn 2020. Mae'n anochel mai'r pandemig, a'i effaith ar effeithiolrwydd trefniadau diogelu yng Nghymru, fydd yn cael y lle blaenaf yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf. Cyn canolbwyntio ar bopeth sydd wedi'i gyflawni ym maes diogelu yn ystod 2019-2020, hoffai'r Bwrdd Cenedlaethol achub ar y cyfle hwn i gydnabod ymateb rhyfeddol yr asiantaethau a'r partneriaid sy'n gweithio ym maes diogelu, a diolch i'r gweithlu sydd wedi mynd i'r afael mewn modd mor broffesiynol â'r heriau y maent wedi'u hwynebu yn y 'byd newydd' hwn.

2019-2020 yw blwyddyn gyntaf ail dymor o dair blynedd y Bwrdd Cenedlaethol. Newidiodd yr aelodaeth ddiwedd eleni pan ymddiswyddodd Jo Aubrey o'r Bwrdd, a hoffem ddiolch iddi am ei chyfraniadau i'r Bwrdd a dymuno'n dda iddi i'r dyfodol. Ym mis Gorffennaf 2020, roeddem yn falch iawn o allu croesawu Lin Slater sydd wedi'i phenodi yn chweched aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol.

Yn yr adroddiad blynyddol diwethaf, gwnaethom ymrwymo i ehangu rychwant y gwaith o 'gyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru', er mwyn sicrhau nad yw'n canolbwyntio yn llwyr ar gyfrifoldebau a dyletswyddau Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Rydym wedi dechrau ar y broses honno yn yr adroddiad hwn ond mae gennym dipyn o ffordd i fynd eto i gynnwys pob corff ac asiantaeth sy'n gyfrifol am ddiogelu. Bydd y gwaith hwnnw'n parhau wrth i ni fapio'r seilwaith diogelu yng Nghymru.

Nid oes neb sy'n gweithio ym maes diogelu yn bychanu'r heriau sydd ynghlwm wrth amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion rhag niwed, ac atal niwed o'r fath ym mhob ffurf a lle bynnag y mae'n digwydd. Fel y dengys yr adroddiad hwn, mae sefydliadau a phartneriaethau diogelu yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r heriau hynny bob dydd.

# Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

## Dyletswyddau a chyfrifoldebau

Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol dair prif ddyletswydd a gaiff eu hegluro yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sef:

1. **Rhoi cymorth a chyngor i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol**
2. **Cyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru**
3. **Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (Adran 132 (2)).**

At hynny caiff wyth o gyfrifoldebau penodol y Bwrdd Cenedlaethol eu hegluro yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, sef y Canllawiau ynghylch Diogelu, dan Ran 7 y Ddeddf. Dyma'r cyfrifoldebau:

1. [Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn] **gweithio ochr yn ochr** â Byrddau Diogelu Oedolion a Byrddau Diogelu Plant i sicrhau gwelliannau cyson i bolisiau ac arferion diogelu ledled Cymru (par. 246)
2. Bydd [y Bwrdd Cenedlaethol] yn **ymgysylltu â chadeiryddion** y Byrddau Diogelu, ac arolygiaethau perthnasol... o leiaf ddwywaith y flwyddyn (par. 258)

3. Bydd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn **cael y wybodaeth ddiweddaraf am agweddau polisi a thystiolaeth** ar ddiogelu ac amddiffyn mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt er mwyn dysgu o'r rheini a gwerthuso perfformiad cymharol Cymru (par. 261)
4. Os bydd...yn nodi **thema o bryder...** gallai'r Bwrdd Cenedlaethol argymhell i Weinidogion Cymru y dylai'r mater gael ei drosglwyddo i'w archwilio gan Lywodraeth Cymru neu'r arolygiaeth berthnasol (par. 263)
5. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn defnyddio mecanweithiau i **ymgysylltu'n rheolaidd â phob math o grwpiau cyfeirio**, ymarferwyr ac unigolion arbenigol (par. 264)
6. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn **cyhoeddi ei adroddiadau blynyddol ei hun** gan gynnwys **unrhyw waith arfaethedig**. Bydd hefyd yn cynnal digwyddiad neu ddigwyddiadau ymgysylltu blynyddol (par. 265)
7. Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol ddyletswydd benodol o dan adran 133(2)(d) o'r Ddeddf i **"ymgyngori â'r rhai y gallai trefniadau i ddiogelu oedolion a phlant yng Nghymru effeithio arnynt"**. Bydd yn defnyddio'r ddyletswydd honno i wella ei ddealltwriaeth ac ymestyn ei brofiad o ddiogelu ac amddiffyn yng Nghymru (par. 266)
8. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn **ystyried yr hyn a ddysgwyr o weithgareddau 'ymgysylltu â defnyddwyr'** y Byrddau Diogelu (par. 266).

## Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Caiff y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol ei disgrifio'n benodol yn Rheoliadau Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) 2015.

## Aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol



Jo Aubrey  
(Tan fis Gorffennaf 2020)



Tessa Hodgson



Karen Minton



Jan Pickles



Jane Randall  
(Cadeirydd)



Lin Slater  
(O fis Gorffennaf 2020)



Tony Young

## Cymorth a chyngor y Bwrdd Cenedlaethol i Fyrddau Diogelu er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol

---

Bu aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn gweithio ochr yn ochr â'r Byrddau Rhanbarthol drwy gydol y flwyddyn, gan gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a rhannu eu gwybodaeth os oedd hynny'n briodol. At hynny, bu aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn cyfarfod bob chwarter â chadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gytuno i ddatblygu cynllun gwaith ar y cyd yng nghyswllt blaenoriaethau cyffredin.

Tua diwedd 2019-2020, roedd y DU yn wynebu'r pandemig Covid-19 a daeth cyfnod clo i rym yng Nghymru ym mis Mawrth 2020. Yn dilyn hynny, bu'r Bwrdd Cenedlaethol yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd bob wythnos â Rheolwyr Busnes y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, ac yn y cyfarfodydd bob pythefnos rhwng cadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

Parhawyd i ganolbwyntio yn ystod y flwyddyn ar sut i reoli'n genedlaethol yr hyn a ddysgir o'r holl adolygiadau diogelu a gaiff eu cynnal gan y Byrddau Rhanbarthol unigol. O ganlyniad, cafodd yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol ac Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd eu comisiynu gan y Bwrdd Cenedlaethol i lunio adolygiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru. Cyhoeddodd y Bwrdd Cenedlaethol ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw yn 2019-2020.



# Gwaith arall a gyflawnwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol, neu gan grwpiau atodol a sefydlwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol, a'r canlyniadau a gyflawnwyd

## Datblygu trefniadau cydweithio gyda rhanddeiliaid

Yn gynnar ar ôl i ni gael ein sefydlu'n Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol newydd, gwnaethom benderfynu adeiladu ar y cydberthnasau a oedd wedi'u datblygu eisoes gan ein rhagflaenydd, ac estyn allan ymhellach at grŵp ehangach o randdeiliaid a phartneriaid allweddol ym maes llywodraethu diogelu ar lefel genedlaethol.

Ar ôl cychwyn trafodaethau â Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, y Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant a Swyddfa Archwilio Cymru, rydym yn falch o fod wedi cytuno ar batrwm o drefniadau ar gyfer cysylltu a chyfathrebu'n rheolaidd â'r cyrff allweddol dan sylw. Mae hynny'n ychwanegol at y trefniadau a oedd wedi'u sefydlu eisoes ar gyfer cysylltu'n rheolaidd â chyrff eraill, e.e. Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Yr hyn a'n trawodd yn fuan, fodd bynnag, oedd y graddau y mae'r 'dirwedd' o ran diogelu yng Nghymru yn aneglur ar ei gorau ac yn anamlwg ar ei gwaethaf, hyd yn oed i'r sawl sy'n gweithio ynddi. Nid oes gan yr un corff na'r un sefydliad drosolwg clir o sut y mae'r rhwydwaith yn edrych, beth yw natur rolau a chydberthnasau pawb na sut y maent yn cydweithio â'i gilydd yng nghyswllt ymarfer a blaenoriaethau cenedlaethol ym maes diogelu. Ysgogodd hynny'r Bwrdd Cenedlaethol i lansio maes ymchwilio newydd a ddisgrifir mewn adran arall yn yr adroddiad hwn.

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad ydym eto wedi cadarnhau gwir rychwant y rhwydwaith, a bod yna gyfranwyr allweddol eraill yn genedlaethol y mae angen i ni ddod i ddealltwriaeth weithredol â nhw.

Un elfen benodol o bwys yn ystod y flwyddyn dan sylw ac ar ddechrau 2020-21 oedd ein trafodaethau â'r amryw gyrff canlynol:

### Llywodraeth Cymru

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob mis â'r Dirprwy Gyfarwyddwr Galluogi Pobl (yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio) a'r Pennaeth Diogelu, Eirioli a Chwynion. Mae'r drafodaeth hon sy'n digwydd yn rheolaidd yn gyfle i gyfnewid barn yn agored, trafod blaenoriaethau, mynegi pryderon am faterion cenedlaethol ym maes diogelu a chytuno ar ddarnau o waith sy'n elwa o gael eu hystyried yn annibynnol gan y Bwrdd Cenedlaethol.

At hynny, cyfarfu'r Bwrdd â'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod ein hadroddiad blynyddol diwethaf, a chafodd ein hargymhellion i Weinidogion eu derbyn. Rhoddir sylw yn nes ymlaen yn yr adroddiad i'r cynnydd a wnaed ar sail yr argymhellion hynny.

Ym mis Chwefror 2020, drwy wahoddiad gan Lywodraeth Cymru, bu'r Bwrdd Cenedlaethol yn cadeirio'r cynadleddau cenedlaethol a gynhaliwyd yn y gogledd a'r de yng nghyswllt Diogelu Oedolion.



## Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae'r drafodaeth hon, sy'n digwydd yn rheolaidd erbyn hyn, wedi ein galluogi i gadw mewn cysylltiad agos drwy gydol y pandemig sy'n datblygu, trefnu ymatebion prydlon i bryderon newydd ynghylch diogelu, a hybu cyfathrebu gwell â'r Byrddau Rhanbarthol. At hynny, cawsom ein cynrychioli yn y grŵp rhanddeiliaid a gafodd ei gynnull i ystyried y fframwaith peilot ar gyfer arolygiadau ar y cyd, wrth iddo gael ei dreialu mewn arolygiad o wasanaethau plant yng Nghasnewydd yn 2019. Dangosodd yr adborth cychwynol a gafwyd yn dilyn yr arolygiad peilot y manteision sy'n perthyn i ddull llawer mwy 'cydgysylltiedig' o gynnal yr arolygiad ei hun, a chafodd y dull diogelu yng Ngwent sy'n seiliedig ar bartneriaeth ranbarthol ei gydnabod am ei gyfraniad cadarnhaol i'r hyn a welwyd ar lawr gwlad yng Nghasnewydd.

## Cyngor y Gweithlu Addysg

Mae trafodaethau wedi parhau â'r rheoleiddiwr gweithlu cenedlaethol allweddol hwn.

Un mater diogelu allweddol a gafodd ei ddwyn i'n sylw oedd **Cofrestru Athrawon mewn Ysgolion Annibynnol**. Yn benodol, nid yw'n ofynnol i'r sawl sy'n addysgu neu sy'n cyflawni rolau tebyg mewn ysgolion yn y sector annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, yn wahanol i bawb sy'n gweithio mewn ysgolion gwladol ledled Cymru. At hynny, mewn achos lle mae unigolyn yn gweithredu'n groes i'r gofynion sylfaenol, ni chaiff athrawon mewn ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan yr un ystyriaethau a'r un rheoliadau â'r athrawon a gaiff eu cyflogi yn y sector gwladol.

Mae cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn rhoi sicrwydd i ddysgwyr, rhieni, gwarcheidwaid, gofawyr, cyd-ymarferwyr, cyflogwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol:

- » bod gan ymarferwyr gymwysterau priodol
- » eu bod yn cael eu hystyried yn bobl addas i'w cofrestru, ar sail eu hanes blaenorol
- » eu bod yn cynnal safonau parhaus a phriodol o ran ymddygiad ac ymarfer (drwy lynu wrth y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol) ac nad ydynt, er enghraifft, wedi'u gwahardd neu'u hatal dros dro gan Gyngor y Gweithlu Addysg
- » nad ydynt wedi'u gwahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Cyngor y Gweithlu Addysg nac unrhyw gorff cyfatebol mewn gwledydd eraill.

Mae'r ffaith nad yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i athrawon a staff cymorth dysgu mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn golygu bod y proffesiwn addysg yn hollol wahanol i broffesiynau eraill megis meddygaeth, nyrsio, deintyddiaeth, ffisiotherapi, gwaith cymdeithasol neu'r gyfraith, lle mae'r sawl sy'n gweithio yn y sector preifat yn rhwym wrth drefniadau rheoleiddio'r proffesiwn er mwyn amddiffyn/diogelu'r cyhoedd.

Mae'n siomedig tu hwnt bod y mater hwn wedi'i ddwyn i sylw Llywodraeth Cymru mor gynnar â 2015 ac yna gan Gyngor y Gweithlu Addysg, a bod y bwlch mawr rhwng y rheoliadau diogelu sylfaenol yn parhau fel yr oedd er gwaethaf ymrwymiad Gweinidogol cadarn yn flaenorol y byddai'r mater yn cael sylw yn y rhaglen lywodraethu.

Ceir ar ddeall bod y Comisiynydd Plant hefyd, yn fwy diweddar, wedi gofyn am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y byddai'r mater yn cael sylw. Yn yr un modd, ddiwedd 2019, tynnodd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol sylw'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol at bryder y Bwrdd ynghylch cofrestru athrawon mewn ysgolion annibynnol.

## Y Comisiynydd Pobl Hŷn

Bu'r trafodaethau cychwynnol â'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn canolbwyntio ar feysydd allweddol a oedd o ddiddordeb cyffredin, a oedd yn cynnwys yr angen am set ddata ynghylch diogelu sy'n cynnig darlun digonol o gamdriniaeth ymhlith pobl hŷn, sut y caiff gwersi eu dysgu o Adolygiadau Ymarfer Oedolion a sut y caiff pobl hŷn eu cynnwys yn ystyrlon fel rhanddeiliaid.

Wrth i'r pandemig Covid-19 ddatblygu yn 2020, bu'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cymryd rhan hefyd yng Ngrwpiau Llywio a Gweithredu'r Comisiynydd Pobl Hŷn ar Gamdriniaeth. Mae hynny wedi galluogi'r Bwrdd i rannu'r pryderon a fynegwyd yn y grwpiau â chyrrff eraill, e.e. rhannu pryderon ynghylch diogelu mewn cartrefi gofal ag Arolygiaeth Gofal Cymru, ac i hybu strategaeth gyfathrebu'r Comisiynydd Pobl Hŷn ar adeg mor dyngedfennol.

## Comisiynydd Plant Cymru

Mae cyfarfodydd bob chwe mis â Chomisiynydd Plant Cymru wedi rhoi cyfle i ni rannu pryderon cyffredin, ac eleni canolbwyntiwyd yn benodol ar y problemau rheoleiddio mewn ysgolion annibynnol, a ddisgrifiwyd eisoes uchod. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r Comisiynydd Plant, er mwyn ceisio datrys materion, wedi defnyddio ei phwerau i gychwyn adolygiad annibynnol o sefyllfa a rôl Lywodraeth Cymru.

Ar ddechrau'r cyfnod clo cenedlaethol ym mis Mawrth 2020, a arweiniodd at gau ysgolion ledled Cymru, mynegwyd pryderon hefyd am effaith y cyfnod clo ar y plant a oedd fwyaf agored i niwed oherwydd eu bod gartref yn hytrach nag yn yr ysgol, ac ar blant sy'n byw gyda chamdriniaeth ddomestig yn eu cartrefi.

## Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Mae gan y Bwrdd gynrychiolydd ar Grŵp Llywio Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar Ddiogelu. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter, a chafwyd tri chyfarfod ers i'n Bwrdd newydd ni gael ei ffurfio. Caiff y Grŵp Llywio ei fynychu'n dda gan ystod o fudiadau o'r trydydd sector, ac mae'r cyfarfodydd yn cynnwys cyswllt fideo â'r gogledd. Mae'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a phob partner sydd o amgylch y bwrdd yn rhoi diweddariadau cyffredinol am waith sydd ar y gweill, yn gofyn unrhyw gwestiynau ac yn cyflwyno unrhyw ymholiadau i'r grŵp eu trafod.

Roedd y prif bynciau a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys y cynnydd yn y galw am hyfforddiant ar gyfer y trydydd sector ynghylch Oedolion sy'n Wynebu Risg; materion sy'n ymwneud â diogelu data; gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches; a chymhwysedd diwylliannol ym maes diogelu. Byddai storfa ganolog ar gyfer gwybodaeth am gyfleoedd o ran hyfforddiant yng Nghymru yn ddefnyddiol i'r trydydd sector, oherwydd bod hyfforddiant y tu hwnt i lefel sylfaenol yn hanfodol. Nodwyd hefyd bod ymddiriedolwyr yn gynulleidfa newydd ar gyfer hyfforddiant.

Nododd y grŵp fod y graddau y caiff y trydydd sector ei gynnwys a'i gynrychioli ar Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yn anghyson, a bod y sector wedi cael anhawster sicrhau bod ei bryderon a'i problemau yn cael eu cynnwys ar agendâu Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

## Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac ystod eang o randdeiliaid i symleiddio'r prosesau adolygu a'r modd y gellir cofnodi a rhannu'r hyn a ddysgir o adolygiadau.

Un o ganlyniadau'r gwaith hwnnw yw bod yr hyn a ddysgir o adolygiadau ar gael yn hawdd i bawb sy'n ymwneud â hyfforddiant ac ymarfer, gan wella ymarfer gweithwyr proffesiynol yn y dyfodol o ran diogelu – gweithwyr proffesiynol megis swyddogion heddlu, gweithwyr cymdeithasol a phawb sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar ddau ddarn o waith ymchwil a gyflawnwyd gan yr Athro Amanda Robinson a Dr Alyson Rees o Brifysgol Caerdydd, a gafodd eu comisynnu gan y Bwrdd i gynnal adolygiadau thematig o bedwar math gwahanol o adolygiadau o farwolaethau: Adolygiadau Dynladdiad Domestig, Adolygiadau Dynladdiad oherwydd Iechyd Meddwl, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Ymarfer Plant. Drwy 'ddarllen ar draws' mathau gwahanol o adolygiadau, nodwyd gwaith dysgu a oedd yn sylfaenol berthnasol i bob math o ymarfer ym maes diogelu. Un argymhelliad allweddol o'r gwaith ymchwil oedd y dylid creu storfa ganolog neu lyfrgell genedlaethol i wella hygyrchedd adolygiadau a gwblhawyd o farwolaethau, er mwyn hwyluso dysgu ar draws Cymru.

A allai dysgu peiranyddol gynorthwyo'r broses hon?

Dyluniodd y Sefydliad Ymchwil Trosedd a Diogelwch ym Mhrifysgol Caerdydd brototeip o storfa a fyddai'n gallu cadw amryw fathau o adolygiadau ac adroddiadau diogelu.

Yn dilyn hynny, o ganlyniad i gyllid a ddarparwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ac Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, bu'n bosibl datblygu fframwaith codio cadarn a ddefnyddir gan y storfa i gyfoethogi'n awtomatig ac fel arall yr adroddiadau a gedwir ynddi, sy'n ei gwneud yn bosibl cynnal chwiliadau cymhleth ar draws y storfa a chymhwyso technegau dysgu peiranyddol i'r data er mwyn gwella'r deall a'r dysgu sy'n bosibl ar sail yr adroddiadau.

## Gwerthusiad o Drefniadau Diogelu Gweithredol Amlasiantaeth Integredig yng Nghymru – gwaith a gyflawnwyd yng Ngham I

Er gwaetha'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag adrodd ynghylch yr hyn a ddigwyddodd yn ystod un flwyddyn ariannol yn unig, mae'n briodol adrodd yma ynghylch yr hyn a gychwynwyd yn ystod 2019-20 a'r hyn a gyflawnwyd o ganlyniad iddo, er nad ydym ond wedi cyrraedd dechrau ail chwarter y flwyddyn ariannol newydd. Gellir cyfiawnhau hynny'n rhannol gan mai ein bwriad oedd cwblhau Cam I y prosiect o fewn y flwyddyn ariannol, ond bod COVID-19 wedi gwneud hynny a sawl agwedd arall ar ein bywyd yn amhosibl.

Hoffem gofnodi ein diolch i'n hymchwilydd, Dr Michelle McManus, am ei gwneud yn bosibl i'r gwaith gael ei gwblhau'n gynnar yn ystod 2020-21, er gwaethaf COVID-19. Hoffem gofnodi ein diolch hefyd am ymdrechion a chymorth ein cydweithwyr yn y Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Gwnaeth pob un ohonynt fwy na'r disgwyl i gyfrannu i'r gwerthusiad, gan roi'n hael o'u hamser, ac rydym yn teimlo bod hynny'n arwydd o bwysigrwydd y gwerthusiad i bob un ohonom.

Rydym ninnau, fel llawer o bobl eraill, yn ddiolchgar hefyd am y dechnoleg effeithiol sydd ar gael i oresgyn unrhyw rwystrau o ran ymgysylltu, a hoffem nodi pwysigrwydd y dechnoleg honno a'n galluogodd i gynnal ein sesiwn olaf ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn llunio'r adroddiad terfynol.

## Y stori hyd yma – Cam I

Yn dilyn trafodaeth rhwng Heddlu De Cymru a Llywodraeth Cymru am effeithiolrwydd Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth, cydnabuwyd y dylai unrhyw waith i ystyried trefniadau diogelu gweithredol gael ei gyflawni gan gorff annibynnol, a hynny ar draws Cymru gyfan.

Yna, cytunodd Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru i noddi adolygiad o Drefniadau Diogelu Gweithredol Amlasiantaeth ledled Cymru ar y sail y byddai'r adolygiad yn rhaglen waith annibynnol a fyddai'n canolbwyntio ar nodi:

- » arfer gorau;
- » cyfleoedd i ddysgu ar y cyd;
- » cryfderau a gwendidau modelau cenedlaethol penodol;
- » map o Gymru gyfan, sy'n dangos yr amrywiaeth o drefniadau diogelu 'drws ffrynt' a natur y trefniadau hynny.

Wrth weithredu fel comisiynydd annibynnol, paratôdd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wahoddiadau i dendro ym mis Tachwedd 2019, a oedd yn adlewyrchu'r uchod.

Y cynigydd llwyddiannus ar gyfer **Cam I** yr adolygiad oedd Prifysgol John Moores Lerpwl, gyda Dr Michelle McManus, Pennaeth Cyfiawnder Troseddol, Yr Ysgol Astudiaethau Cyfiawnder, yn arweinydd y prosiect. Cychwynwyd ar y gwaith ar 27 Ionawr 2020, ac mae'r adroddiad terfynol ynghylch canfyddiadau ac argymhellion Cam I ar gael drwy wefan y Bwrdd Cenedlaethol.

Prif ffocws **Cam I** yn y bôn oedd llunio map clir o'r gwahanol Drefniadau Diogelu Gweithredol Amlasiantaeth sy'n bodoli ym mhob un o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol sydd yng Nghymru. Ar y dechrau a chyn Cam I y gwerthusiad, nid oedd unrhyw sefydliad unigol yn gallu disgrifio'r ystod o drefniadau ac amrywiaeth y trefniadau a oedd i'w cael ledled Cymru, ac ystyriwyd bod cael darlun clir o **'beth yw'r trefniadau'** yn angenrheidiol i ddechrau cyn cynnal gwerthusiad o'u heffeithiolrwydd – **'pa mor dda yw'r trefniadau'**.

Caiff Cam II y gwaith hwn ei ddisgrifio'n nes ymlaen yn yr adroddiad, yn rhan o raglen waith y Bwrdd yn y dyfodol.

## Cyfathrebu a Chyfyngau Cymdeithasol

Mae gwefan y Bwrdd, sef [www.bwrdddiogelu.cymru](http://www.bwrdddiogelu.cymru), wedi cael ei diweddarau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Denodd y wefan 5,672 o ymwelwyr. Roedd 87.9% o'r rheini yn ymweld â'r wefan am y tro cyntaf a bu'r rhan fwyaf ohonynt yn pori ar ddwy neu dair tudalen tra oeddent arni. Cyrhaeddodd mwyafrif yr ymwelwyr ein Hafan drwy chwilio ar Google, a chafwyd cyfanswm o 18,983 o ymweliadau â thudalennau. Yr Hafan oedd y dudalen yr ymwelwyd â hi fwyaf, a'r ardal fwyaf poblogaidd wedyn ar y wefan oedd ein tudalen 'Canfyddiadau o ddadansoddiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru' a gyhoeddwyd ar 28/01/2020.

At hynny, mae gan y Bwrdd rywfaint o bresenoldeb ar Facebook (mae 179 wedi hoffi'r dudalen) a Twitter (mae ganddo 303 o ddilynwyr) ac mae ein hafan ar y ddau lwyfan yn cynnwys dolenni cyswllt â'n gwefan. Rydym yn ceisio defnyddio ein presenoldeb ar gyfyngau cymdeithasol i rannu newyddion, manylion am ddigwyddiadau, ac adroddiadau am ddiogelu o bob rhan o Gymru.

## Cyfrannodd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol i nifer o weithgorau a grwpiau cynghori drwy gydol y flwyddyn.

### Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ofal Preswyl i Blant

Mae'r Bwrdd wedi sicrhau ei fod yn cadw golwg ar yr agwedd bwysig hon ar ddatblygu polisi cenedlaethol, gan ddilyn ôl troed ein cydweithwyr a'n rhagflaenodd.

Mae cylch gwaith y grŵp hwn yn eang dros ben ac mae'n ceisio dylanwadu ar ddull cyffredinol y genedl o ymdrin â rôl gofal preswyl, a gwasanaethau cysylltiedig i blant sy'n derbyn gofal, mewn fframwaith polisi cadarnhaol sy'n seiliedig ar dystiolaeth briodol.

Mae'n galonogol bod y fforwm hwn wedi darparu ffocws clir ar gyfer dadansoddi'r heriau sy'n wynebu'r sector ac ar gyfer ysgogi camau i lunio adroddiadau er mwyn cynorthwyo'r broses o bennu cyfeiriad; gwneud argymhellion ar gyfer newid, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn hybu gwaith cyflawni drwy ddatblygu canllawiau ymarfer (er enghraifft, yng nghyswllt rheoli lleoliadau y tu allan i'r dalgylch); nodi modelau arfer gorau ar gyfer gofal preswyl; ac ystyried y camau sy'n angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiynau dyrys sy'n gysylltiedig â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a lleoliadau remánd diogel.

Cafodd cynhadledd genedlaethol a oedd yn canolbwyntio ar ofal preswyl ei chynnal gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar 20 Chwefror 2020, ac roedd llawer o bobl yn bresennol ynddi. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, cafodd gweithwyr yn y sector gyfle i ddathlu eu cryfderau a'u llwyddiannau a chymryd rhan mewn trafodaeth ynghylch newid a gwella, ac roedd tipyn o'r drafodaeth honno yn rhoi sylw i waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

### Grŵp Cyfeirio Cymru yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Cafodd Grŵp Cyfeirio Cymru yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ei sefydlu i gydnabod cyfraniad Cymru yng nghyd-destun gwaith yr Ymchwiliad. Caiff cyfarfodydd y Grŵp eu mynychu gan gynrychiolwyr pobl sydd wedi goroesi camdriniaeth, Llywodraeth Cymru a phob asiantaeth berthnasol. Mae'n broses ddwy ffordd sy'n sicrhau bod yr Ymchwiliad yn ymwybodol o'r cyd-destun yng Nghymru a'n bod ni yng Nghymru yn gallu cyfrannu a dysgu o waith yr Ymchwiliad.

Yn 2019-20, ar ôl cyhoeddi ei ganfyddiadau ynghylch sefydliadau yn yr Eglwys Gatholig, ehangodd yr Ymchwiliad ffocws ei waith gan ddechrau ymchwiliad newydd i'r modd y caiff plant eu hamddiffyn mewn sefydliadau a lleoliadau crefyddol. Roedd yr ymchwiliad yn un thematig a bu'n adolygu'r polisiau amddiffyn plant, yr arferion a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar hyn o bryd mewn sefydliadau crefyddol amlwg iawn yng Nghymru a Lloegr. Roedd y sefydliadau a oedd yn rhan o gylch gorchwyl yr ymchwiliad yn cynnwys enwadau Cristnogol anghydfurfiol, Tystion Jehofa, Bedyddwyr a Methodistiaid ynghyd ag Islam, Iddewiaeth, Siciaeth, Hindŵaeth a Bwdhaeth.

Cyhoeddodd yr Ymchwiliad ystod o waith ymchwil ac adroddiadau a oedd yn ymdrin â Phlant mewn Dalfeydd a'r sawl sydd mewn lleoliadau diogel, ymhlith eraill. Parhaodd y Prosiect Gwirionedd i glywed gan bobl yng Nghymru a oedd wedi dioddef ac wedi goroesi camdriniaeth rywiol pan oeddent yn blant, a thrwy weithio mewn partneriaeth ag elusen iechyd pobl fyddar cafodd pobl fyddar a oedd wedi dioddef camdriniaeth rywiol pan oeddent yn blant gyfle i rannu eu profiad.



## Y Bwrdd Cyngori ar Ddiogelu Cyd-destunol

Mae'r Bwrdd Cyngori hwn sy'n ymdrin â'r DU gyfan yn cynnwys cynrychiolwyr o bob cwr o'r DU. Drwy fynychu ei gyfarfodydd, mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn gallu sicrhau bod Cymru yn chwarae rhan lawn yn yr agenda hon ac yn gallu cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ystod eang o fentrau diogelu cyd-destunol sydd ar waith ledled y DU.

Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd y Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol bapur briffio ynghylch defnyddio'r dull fel ymateb creadigol i Linellau Cyffuriau. Ceir awydd yng Nghymru i ddefnyddio'r dull hwn sy'n ceisio deall profiadau pobl ifanc o niwed sylweddol y tu allan i'w teuluoedd, ac sy'n ceisio ymateb i'r profiadau hynny, gan ymgysylltu â chyd-destun bywydau pobl ifanc a chydabod bod y gwahanol gydbertnasau y mae pobl ifanc yn eu creu yn eu cymdogaethau, eu hysgolion ac ar-lein yn gallu arwain yn y pen draw at drais a chamdriniaeth. Rydym yn gwybod bod rhieni a gofaluwr yn gallu cael anhawster dylanwadu ar y cyd-destunau hynny, sy'n fwy pwerus na'r berthynas rhwng rhiant a phlentyn. Dyma erthygl fer, dda am y stori hyd yma: [contextualsafeguarding.org.uk/a-2020-update-on-the-operational-strategic-and-conceptual-framework/](https://contextualsafeguarding.org.uk/a-2020-update-on-the-operational-strategic-and-conceptual-framework/)

## Cyfrannodd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol i'r ymgynghoriadau canlynol yn ystod y flwyddyn

Rhoddodd y Bwrdd Cenedlaethol dystiolaeth lafar i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ynghylch y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

Cyfrannodd y Bwrdd Cenedlaethol i ymgynghoriad ynghylch y Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020.

## Gwaith arfaethedig y Bwrdd Cenedlaethol yn y dyfodol

### Gwerthusiad o Drefniadau Diogelu Gweithredol Amlasiantaeth Integredig yng Nghymru – ein cynllun ar gyfer 2020-21

Cyn cychwyn Cam I, bwriad y Bwrdd Cenedlaethol oedd y byddai Cam II yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar **werthusiad cyffredinol o'r ystod o drefniadau diogelu gweithredol amlasiantaeth**, pan fyddai'r trefniadau hynny yn eu holl ffurfiau amrywiol wedi'u mapio a'u deall. Fodd bynnag, er y bydd Cam II yn mynd yn ei flaen i gynnal y gwerthusiad hwnnw, bydd yn awr yn 1 o 3 o elfennau rhyngberthynol mewn rhaglen gyffredinol gwella systemau yn ystod y 2-3 blynedd nesaf a thu hwnt i hynny. Yr hyn sydd i gyfrif yn rhannol ac i raddau helaeth am y ffocws ehangach hwn yw argymhellion adroddiad Cam I, ond mae hefyd yn deillio o awydd blaenorol cryf ymhlith rhanddeiliaid yn genedlaethol i ddatblygu'n strategol ac yn ehangach agweddau allweddol eraill ar lywodraethu a gwella. Erbyn hyn, felly, mae'r gwerthusiad o drefniadau diogelu gweithredol amlasiantaeth wedi troi yn 'Lot 1 Cam II' mewn rhaglen sydd bellach yn rhaglen ddatblygu strategol a gaiff ei chomisiynu ar hyn o bryd.

Mae'r ddwy agwedd ychwanegol yn ymwneud **yn gyntaf** â datblygu **"fframwaith perfformiad" diogelu statudol cenedlaethol** ac yn ymwneud **yn ail** â meithrin dealltwriaeth well o **'brofiad gwirioneddol'** y sawl sydd rywsut yn eu cael eu hunain yn rhan o'r broses ddiogelu statudol. Mae darparwyr yn cael eu gwahodd yn awr i dendro am y tair agwedd hon ar waith ymchwil a datblygu, a gaiff eu galw yn 'Lotiau 1, 2 a 3' yn ôl eu trefn.

O’u hystyried gyda’i gilydd yn un rhaglen ryngberthynol, mae’r Bwrdd Cenedlaethol o’r farn y gallai’r tri llinyn gwaith hyn wella’n sylweddol ein capasiti fel cymuned broffesiynol genedlaethol i ddeall ‘beth y mae da’n ei olygu’ ar draws y system gyfan, a’n rhoi mewn sefyllfa well i weithredu er mwyn gwella’r hyn sy’n digwydd dan faner ‘diogelu’ ar bob lefel. Fel Bwrdd Cenedlaethol, rydym yn llawn cyffro ynghylch y gobaith o allu nodi cryfderau’r dull diogelu ledled Cymru ac o allu meithrin dealltwriaeth o sut y gellir ei ddatblygu ymhellach, o ganlyniad i’r gwaith a fydd yn dechrau’n fuan ar Gam II.

### **Diagram sgematig llawn gwybodaeth, sy’n darlunio trefniadau gweithredu a chydberthnasau allweddol o safbwynt llywodraethu diogelu yng Nghymru**

Mae’r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn comisiynu sefydliad arbenigol i lunio diagram sgematig llawn gwybodaeth, a fydd yn darlunio’r dirwedd o ran llywodraethu diogelu yng Nghymru.

Bydd y diagram yn nodi pob un o’r cyrff llywodraethu yn glir, wedi’u categorioedd yn ôl eu prif swyddogaeth/rôl, a bydd yn nodi cydberthnasau atebolrwydd, yn dangos y sianelau cyfathrebu a’r llifoedd gwybodaeth sy’n bodoli eisoes, ac yn darparu siart ‘un dudalen sydyn’ sy’n cynnwys ffeithluniau ac sy’n gallu darlunio’r amrywiadau uchod yn y modd mwyaf cydlynus posibl a’r modd mwyaf hygyrch posibl i’r cyhoedd.

### **Rheoli a gwerthuso sianelau digidol ar gyfer y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**

Mae’r Bwrdd yn teimlo ei bod yn bwysig i ni gynyddu ein presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol a’n gweithgarwch ar-lein, ac i’r perwyl hwnnw rydym yn ceisio defnyddio sgiliau sefydliad sy’n gontractwr. Ein gobaith yw y bydd hynny’n hybu camau i hyrwyddo ein gwaith ni a gwaith ein partneriaid ar draws Cymru, ac y bydd yn sicrhau bod ein presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol yn cael ei sicrhau mewn modd proffesiynol gyda’r adnoddau priodol.

Bydd y sefydliad yn cael ei ddefnyddio i gyfathrebu ac ymgysylltu â’n cynulleidfaoedd a gwrando arnynt, gan ddefnyddio cynnwys a dulliau gweithredu priodol ar gyfer pob sianel, e.e. Facebook, YouTube, Twitter, ac i ddarparu’r gwasanaeth yn ddwyieithog.

### **Adolygiad thematig bob dwy flynedd o Adolygiadau Ymarfer Oedolion**

Hwn fydd yr ail adolygiad bob dwy flynedd o Adolygiadau Ymarfer Oedolion i’w gomisiynu gan y Bwrdd Cenedlaethol. Fel o’r blaen, amcan cyntaf yr adolygiad yw creu gwaelodlin dibynadwy a dilys o wersi i’w dysgu ym maes diogelu, sy’n seiliedig ar gyfnod o ddwy flynedd. Yr ail amcan yw nodi’r themâu cyffredin sy’n deillio o’r adolygiadau, yng nghyswllt y lleoliadau lle mae’r themâu yn codi, a nodi gwybodaeth sy’n berthnasol i anghenion ymarferwyr ym maes diogelu.



## Cynllunio ar gyfer dyfodol y Bwrdd Cenedlaethol

Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, bydd y Bwrdd Cenedlaethol hwn hanner ffordd drwy ei dymor o dair blynedd a bydd bron bum mlynedd wedi pasio ers i'r Bwrdd Cenedlaethol cyntaf ddechrau ar ei waith. Fel Bwrdd, felly, rydym yn teimlo ei bod yn amserol ac yn angenrheidiol i Lywodraeth Cymru adolygu'r amodau a'r telerau ynghyd â'r trefniadau ar gyfer penodi aelodau'r Bwrdd nesaf. Mae'r meysydd penodol y mae angen eu hystyried yn cynnwys:

- » Rôl a swyddogaeth y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol: Y bwriad o'i gymharu â'r realiti
- » Adnoddau: adnoddau ariannol, ymrwymiad aelodau'r Bwrdd o ran amser, a chymorth gweinyddol
- » Trefniadau pontio o'r naill Fwrdd i'r Bwrdd nesaf
- » Amseru'r broses ar gyfer penodiadau cyhoeddus er mwyn sicrhau nad oes bwlch rhwng Byrddau.

# Adroddiad ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru

## Llywodraeth Cymru

Gwnaeth y Bwrdd bedwar o argymhellion i Weinidogion Cymru y llynedd, a chafodd pob un ohonynt eu derbyn. Mae'r ymatebion hyd yma wedi'u nodi isod.

### Argymhelliad 1

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Canllawiau Technegol y Fframwaith Perfformiad Gofal Cymdeithasol yn cynnwys gwybodaeth am achosion o gam-drin pobl hŷn, trwy gasglu data sydd wedi'i ddadansoddi yn ôl grŵp oedran.**

**Ymateb hyd yma:** Bydd cyfrifiad newydd o Oedolion sy'n Cael Gofal a Chymorth yn cael ei ddatblygu, a fydd yn cynnwys dyddiadau geni. Y bwriad oedd y byddai'r cyfrifiad yn cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac yn cael ei weithredu o 2021/22 ymlaen. Mae Grŵp Gweithredol y Fframwaith Perfformiad a Gwella (a gaiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan, Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Cymru Gyfan, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a Llywodraeth Cymru) wedi cymeradwyo'r gwaith hwn fel y gall fynd rhagddo. Fodd bynnag, ceir rhybuddion y gallai gofynion parhaus mewn ymateb i Covid-19 darfu ar yr hyn a gyflawnir. Pan fydd y cyfrifiad wedi'i roi ar waith, bydd yn ymarfer casglu data a fydd yn digwydd yn flynyddol. Bydd y newidiadau a wneir i'r datganiad diogelu yn rhan o ymarfer casglu data 2020/21 ac ymarferion casglu data dilynol.

### Argymhelliad 2

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu Fframwaith Perfformiad ar gyfer Diogelu yng Nghymru.**

**Ymateb hyd yma:** Fel y disgrifiwyd eisoes uchod, bydd hynny'n rhan o'r gwaith a gomisiynir gan y Bwrdd Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

### Argymhelliad 3

**Dysgu o Adolygiadau Diogelu. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir ymgorffori'r storfa genedlaethol a dysgu peirianyddol mewn prosesau adolygu prif ffrwd, a sicrhau cyllid er mwyn gwneud yr adnodd yn un cynaliadwy ar gyfer y tymor hir.**

**Ymateb hyd yma:** Mae hynny'n rhan o'r gwaith a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu proses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, ac mae grŵp gorchwyl pwrpasol yn ystyried y mater.

### Argymhelliad 4

**Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad thematig o bob adolygiad diogelu bob dwy flynedd er mwyn nodi themâu a rhannu gwaith dysgu yn genedlaethol.**

**Ymateb hyd yma:** Bydd hynny'n rhan o broses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn y dyfodol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau na chaiff momentwm ei gollu, bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn comisiynu'r ail adolygiad bob dwy flynedd o Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn rhan o'i raglen waith ar gyfer 2020-2021.

## Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn 2019-2020 yn egluro'r ffyrdd y mae'r Comisiynydd yn sbarduno newid er mwyn gwella bywydau pobl hŷn sy'n byw yng Nghymru.

Rhodddwyd sylw manwl i bobl hŷn yn amgylchiadau'r cyfnod clo a oedd yn angenrheidiol oherwydd cyfraddau heintio Covid-19. Ym mis Mehefin 2020, cafodd *Lleisiau Cartrefi Gofal: Cipolwg ar fywyd yng nghartrefi gofal Cymru yn ystod Covid-19* ei gyhoeddi, a oedd yn rhoi cyfle i bobl a oedd yn byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal sôn am eu profiadau yn ystod y cyfnod clo. Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhywfaint o'r arfer da sydd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl, ac yn nodi'r problemau a'r heriau y daethpwyd ar eu traws.

Ym mis Awst 2020 cafodd adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn, *Gadael Neb ar Ôl: Camau Gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn*, ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn archwilio'r effaith sylweddol y mae Covid-19 wedi'i chael ar bobl hŷn ledled Cymru, ac mae'n egluro'r camau gweithredu angenrheidiol ar draws nifer o feysydd allweddol – gan gynnwys gofal cymdeithasol ac iechyd, yr economi a'n cymunedau – y mae'n rhaid eu cymryd wrth i ni symud ymlaen, er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cymryd rhan yn llawn yn adferiad Cymru a'u bod yn gallu cael gafael ar y cymorth y gallai fod arnynt ei angen.

Mae'r Comisiynydd wedi nodi camau gweithredu ymarferol y mae angen eu cymryd ar unwaith er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a grëwyd gan y pandemig, yn ogystal â chamau gweithredu tymor hwy y bwriedir iddynt fynd i'r afael â'r problemau strwythurol ehangach sy'n effeithio ar bobl hŷn ac a waethygyd gan Covid-19.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth a gafwyd drwy ymgysylltu'n helaeth â phobl hŷn sydd wedi rhannu eu profiadau â'r Comisiynydd drwy gydol y pandemig, yn ogystal â gwybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu'n barhaus â chyrrff a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl hŷn ac er eu mwyn.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r Comisiynydd yn tynnu sylw at y bobl hŷn niferus sy'n cael eu cam-drin ac y camfanteisir arnynt, droeon weithiau, mewn ffyrdd gwahanol ac mewn lleoliadau gwahanol. Drwy weithio gyda Grŵp Gweithredu sy'n cynnwys 30 o sefydliadau, mae'r aelodau wedi datblygu cynllun gweithredu strategol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau diogelu y dylai'r Grŵp Gweithredu roi sylw iddynt. Mae'r grŵp wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o'r pethau y gall pobl hŷn eu gwneud i'w cadw eu hunain yn ddiogel, a'r rôl y gall y cyhoedd ei chwarae i ddiogelu pobl hŷn, sy'n cynnwys annog pobl i sôn am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am ddiogelwch neu les person hŷn.

Er y ceir dealltwriaeth gynyddol o raddfa a natur camdriniaeth a throseddau yn erbyn pobl hŷn, mae'r Comisiynydd yn mynnu bod yna brinder data ystyrlon sy'n angenrheidiol er mwyn deall y sefyllfa'n well. Heb ddata gwell am bobl hŷn, yn enwedig data am gamdriniaeth, ceir pryder y gallai rhagdybiaethau anghywir gael eu llunio am y graddau y mae'r materion hyn yn effeithio ar bobl hŷn.

Roedd rhaglen waith y Comisiynydd yn cynnwys mapio'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn sy'n wynebu risg o ddioddef camdriniaeth, ac sydd yn dioddef camdriniaeth, a thynnu sylw at y meysydd lle mae angen gwelliannau.

Mae tîm ymchwil wedi'i sefydlu i adolygu data a chanlyniadau'n ymwneud â 400 o achosion diogelu ledled Cymru. Nod y tîm yw adnabod y problemau a allai arwain at lefelau isel o erlyn, a'r ffyrdd y gellir gwella ymchwiliadau diogelu.

Mae sesiynau hyfforddiant wedi'u darparu ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a thrwy weithio gyda chyrrff cyhoeddus a sefydliadau allweddol mae'r Comisiynydd wedi cynnal cyfres o drafodaethau bord gron. Yn ystod y trafodaethau nodwyd camau gweithredu i amddiffyn a diogelu pobl hŷn ynghyd â chyfleoedd i weithio ar y cyd er mwyn dylanwadu ar newid a chyflwyno gwelliannau, a bwriedir rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

## Comisiynydd Plant Cymru

Mae Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2019-2020 yn rhoi manylion y gwaith a gyflawnwyd a'r camau gweithredu sydd yn yr arfaeth i sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu hyrwyddo a'u gwarchod ym mhob agwedd ar fywyd. Drwy ymgysylltu'n barhaus â phlant a phobl ifanc a gweithio gydag ystod eang o sefydliadau a Llywodraeth Cymru, mae llawer wedi'i gyflawni a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch a lles plant.

Cafodd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) Gydsyniad Brenhinol yn 2020. Yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, bydd swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i gymryd rhan yn y grwpiau rhanddeiliaid ynglŷn â negeseuon cyhoeddus a chymorth i fagu plant, yn rhan o'r ymrwymadau a wnaed yn ystod hynt y Ddeddf a fydd yn dod i rym ym mis Mawrth 2022.

Mae amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael eu cam-drin yn rhywiol a rhag sefyllfaoedd lle camfanteisir arnynt yn rhywiol, mewn cymdeithas gymhleth a chyfnewidiol, yn her barhaus ac mae'r Comisiynydd yn parhau i gynnull a chadeirio trafodaethau bord gron cenedlaethol ynghylch y mater.

Er mwyn deall lefelau'r math hwn o gamdriniaeth yng Nghymru yn llawnach, mae trefniadau newydd wedi'u cyflwyno dan y 'Mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol: cod ymarfer'. Bydd hynny'n awr yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol adrodd ynghylch nifer y cyfarfodydd strategaeth am gam-drin plant/camfanteisio ar blant yn rhywiol, er mwyn cynorthwyo i ddarganfod pa mor gyffredin yw'r math hwn o gamdriniaeth yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd Plant wedi annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu Canllawiau ynghylch Camfanteisio ar Blant yn Rhywiol, er mwyn sicrhau bod darlun cenedlaethol ar gael i lywio prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.

Tynnir sylw at nifer fach o blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd ag anghenion cymhleth o ran iechyd meddwl a gofal cymdeithasol, y mae arnynt angen cymorth mewn lleoliad preswyl. Mae adolygiad arfaethedig Llywodraeth Cymru o'r ddarpariaeth gyffredol o ran gwasanaethau o'r fath wedi'i groesawu.

Mae'r Comisiynydd Plant yn parhau i bwysleisio'r angen am newid statudol er mwyn gwarchod hawliau plant i gael addysg addas a chael eu gweld ac er mwyn i'w barn, gan gynnwys eu barn am eu haddysg a'u profiadau, gael ei chlywed. Cafodd yr angen am newid polisi ei adlewyrchu hefyd gan yr adroddiad ynghylch addysg yn y cartref yn 2017, a gomisiynwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ac a oedd yn argymhell y dylid cadw cofrestr o bob plentyn sy'n cael addysg yn y cartref ac y dylai plant gael eu gweld bob blwyddyn. Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi'r bwriad i gynnal adolygiad a chyhoeddi swyddogaethau'r Llywodraeth o ran yr agwedd hon ar waith llunio polisiâu.

Er mwyn diogelu'n well y plant hynny sy'n cael eu haddysg mewn lleoliadau annibynnol, mae'r Comisiynydd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ysgolion annibynnol ac wedi galw ar Gyngor y Gweithlu Addysg i gynnwys gofyniad y dylai pob aelod o staff addysgu a thimau arwain lleoliadau annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Un maes gwaith pwysig arall yw profiad plant o'r system ofal yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd wedi croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i ddiwygio trefniadau rhianta corfforaethol er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth megis gwasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol a mudiadau cymunedol eraill yn gallu hybu canlyniadau cadarnhaol a lles i bobl ifanc sydd wedi cael profiad o'r system ofal. Mae cynnydd o ran cynnwys cyswllt â brodyr a chwiorydd mewn cynlluniau gofal ar gyfer plant a gaiff eu mabwysiadu'n cael ei fonitro o hyd, ac mae'r Comisiynydd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau cymorth parhaus ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal.

Mae eiriolaeth yn elfen hollbwysig o gymorth i rai plant a phobl ifanc, oherwydd mae'n rhoi modd iddynt fynegi eu dymuniadau a'u teimladau am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r Comisiynydd Plant yn parhau i weithio tuag at sicrhau bod plant yn gallu manteisio ar eiriolaeth, ac yn parhau i fonitro'r graddau y mae plant yn gallu gwneud hynny, drwy waith y Comisiynydd ym maes polisi a thrwy'r Tîm Ymchwiliadau a Chyngor.

Mae'r Comisiynydd wedi gwneud sylwadau ar yr arweinyddiaeth flaengar y mae Cymru wedi'i dangos yn ei hymrwymiad i gydnabod hawliau plant ym maes cyfiawnder ieuenctid, yn enwedig wrth iddi gyhoeddi'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru, sy'n egluro rhaglen ddiwygio uchelgeisiol ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru.

Mae'r Glasbrint yn rhoi pwys ar waith atal a hawliau plant ac ar ddeall effaith trawma ar ganlyniadau cadarnhaol i blant o safbwynt cyfiawnder ieuenctid. Mae'r Comisiynydd wedi galw am gynnydd tuag at wireddu'r uchelgeisiau a chyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y Glasbrint i sicrhau bod Cymru yn gallu diwygio'r modd y mae'n darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid er mwyn diwallu anghenion plant agored i niwed yn well a lleihau lefelau troseddu ymhlith plant yng Nghymru.

Mae'r Comisiynydd yn nodi y bydd y DU yn cael ei harchwilio yn 2022 gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn dilyn yr archwiliad diwethaf a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2016, a bydd yn cyhoeddi adroddiad ar y cyd â Chomisiynwyr Plant eraill y DU ym mis Tachwedd 2020, a fydd yn nodi'r meysydd â blaenoriaeth y dylid rhoi sylw iddynt.

## Y Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Mae adroddiad y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ynghylch y trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru sy'n gyfrifoldeb i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn dibynnu ar y wybodaeth sydd yn Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Rhanbarthol.

Ceir chwe rhanbarth yng Nghymru. Yn **2019-2020** roeddent fel a ganlyn ar ôl rhywfaint o ad-drefnu:

- » Caerdydd a'r Fro
- » Cwm Taf Morgannwg
- » Gwent
- » Canolbarth a Gorllewin Cymru
- » Gogledd Cymru
- » Gorllewin Morgannwg.

Lluniodd pob un o'r chwe rhanbarth un Adroddiad Blynyddol i ymdrin â gwaith y Bwrdd Diogelu Plant a'r Bwrdd Diogelu Oedolion. Erbyn hyn, mae gan dri rhanbarth Fwrdd Plant ac Oedolion wedi'i integreiddio'n llawn sydd ag un strwythur ac un gyfres o flaenoriaethau ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg, sy'n flaenoriaethau yr ymddrinnir â nhw mewn cynllun blynyddol ar y cyd.

Mae gan y tri Bwrdd arall gynlluniau blynyddol ar wahân ar gyfer plant ac oedolion ac mae ganddynt fyrddau ar wahân o hyd ar gyfer plant ac oedolion, er eu bod yn cydweithio'n agos â'i gilydd. Ym mhob rhanbarth, mae'r byrddau yn cael cymorth gan Uned Fusnes a rennir.

Lluniodd pob rhanbarth eu hadroddiadau blynyddol o fewn yr amserlenni diwygiedig a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd y pandemig Covid-19, cafodd y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol eleni ei ymestyn o 31 Gorffennaf i 30 Medi.

Mae paragraff 209 y Canllawiau a gyhoeddwyd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg', yn pennu'r hyn y dylid ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Roedd adroddiadau blynyddol pob un o'r rhanbarthau yn cynnwys y wybodaeth ofynnol.

## Aelodaeth y Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Mae partneriaid statudol y Byrddau Diogelu yn cynnwys awdurdodau lleol pob rhanbarth, prif swyddogion yr heddlu, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Ymddiriedolaethau GIG sy'n darparu gwasanaethau yn yr ardal, a darparwyr gwasanaethau prawf a throseddau ieuencid. At hynny, mae'r Byrddau yn cynnwys cynrychiolwyr o Dîm Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru, lleoliadau diogel yn y rhanbarth ac asiantaethau'r trydydd sector.

Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn cadeirio pob un o'r Byrddau yn 2019-2020.

Darparodd pob un o'r Byrddau Rhanbarthol restr o aelodau eu Byrddau. Darparodd un rhanbarth y wybodaeth hon ar sail rôl yn unig, ond gwnaeth y pum rhanbarth arall gynnwys enw'r unigolyn yn ogystal â'i swydd.

Dim ond dau ranbarth a ddarparodd ddata ynghylch presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Ym mhob un o'r rhanbarthau hynny, gwelwyd tystiolaeth nad oedd cynrychiolwyr asiantaethau wedi mynychu'r un cyfarfod, neu'u bod wedi mynychu un cyfarfod yn unig, a hynny drwy'r flwyddyn. Nododd y ddau Fwrdd dan sylw y cyfraniadau a wnaed gan asiantaethau, ar wahân i fynychu prif gyfarfodydd y Bwrdd, a darparodd un Bwrdd ddisgrifiad o'i broses uwchgyfeirio ar gyfer rheoli diffyg presenoldeb neu ddiffyg ymgysylltu parhaus.

Ni wnaeth unrhyw un o'r Byrddau nodi bod diffyg presenoldeb/diffyg ymgysylltu yn ffactor a oedd yn effeithio ar allu'r Bwrdd neu'i is-grwpiau i wneud eu gwaith.

## Y camau y mae'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi'u cymryd i gyflawni canlyniadau penodol

Roedd pob rhanbarth wedi nodi blaenoriaethau'r Byrddau ar gyfer y flwyddyn. Ond roedd y meini prawf a ddefnyddiwyd i bennu'r blaenoriaethau hynny, a'r sylfaen dystiolaeth neu'r gwaith dysgu a ddefnyddiwyd i'w dewis, yn llai amlwg. Roedd yn amlwg bod mwyafrif y Byrddau wedi lleihau nifer eu blaenoriaethau ers y llynedd ac wedi llunio amcanion mwy strategol a oedd yn cynnwys llawer o faterion penodol a oedd yn deillio o flynyddoedd blaenorol. Roedd nifer y blaenoriaethau ar gyfer pob Bwrdd yn amrywio o ddwy i bump.



Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, roedd y meysydd â blaenoriaeth a nodwyd yn cynnwys gwella trefniadau llywodraethu ac effeithiolrwydd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol; datblygu'r gweithlu diogelu drwy ehangu gwybodaeth, darparu hyfforddiant a chynnig canllawiau cefnogol; hybu cyfranogiad gyda phartneriaid a chymunedau; a diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg mewn amgylchiadau penodol. Roedd rhai o'r meysydd newydd â blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer eleni'n cynnwys diogelu'r sawl sy'n wynebu risg rhag effaith camdriniaeth ddomestig, ac effeithiau rianta gwael ar ieched a lles meddwl plant.

Disgrifiodd pob un o'r Byrddau y gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn, ac roedd adroddiadau blynyddol eleni'n cynnwys mwy o dystiolaeth ynghylch beth oedd wedi'i gyflawni ac ynghylch sut yr oedd hynny'n llywio gwaith pellach yr oedd angen ei gyflawni neu welliannau y dylid eu gwneud.

## **Y graddau y mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi gweithredu eu cynlluniau blynyddol diweddaraf, gyda manylion ynghylch y graddau y cafodd unrhyw welliannau arfaethedig penodol eu gweithredu**

Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Diogelu gyhoeddi ei Gynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod erbyn 31 Mawrth fan bellaf. Disgrifiodd pob Bwrdd lawer iawn o weithgarwch priodol i ddiogelu a oedd wedi'i gyflawni drwy gydol y flwyddyn, ac o ran hynny roedd yn ymddangos eu bod yn gwneud cynnydd o safbwynt gweithredu eu cynlluniau ar gyfer pob blaenoriaeth a nodwyd.

Cafwyd mwy o lawer o dystiolaeth eleni bod y Byrddau Rhanbarthol yn disgrifio'n benodol i ba raddau yr oedd unrhyw welliannau arfaethedig penodol wedi'u gweithredu. Aeth nifer o'r Byrddau ati i ddisgrifio hynny gan gyfeirio at y canlynol:

- » beth yr oeddent wedi dweud y byddent yn ei wneud,
- » pa welliannau a wnaed,
- » pa ganlyniadau a gyflawnwyd,
- » beth yw'r camau nesaf.

O ganlyniad roedd cynnydd a chyflawniadau'r Byrddau yn fwy tryloyw, a oedd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ynghylch sut yr oedd y Byrddau yn cyflawni eu cyfrifoldebau.

Disgrifiodd un o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol sut yr oedd wedi defnyddio'r Adnodd Hunanasesu Bwrdd yn ei ddiwrnod datblygu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw un o'r Byrddau wedi asesu'n gyffredinol pa mor dda yr oedd y Bwrdd yn gweithredu, yn eu barn nhw, ac a oeddent wedi wynebu heriau neu rwystrau penodol wrth geisio rhoi eu cynlluniau blynyddol ar waith.

## **Y modd y mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi cydweithio â phobl neu gyrff eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amcanion y Byrddau**

Disgrifiodd pob un o'r Byrddau y modd y maent wedi cydweithio â phobl a chyrrff eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â diogelu. Cafwyd dystiolaeth o lefel amrywiol iawn o gydweithio â sefydliadau a chyrrff rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd rhai o'r enghreifftiau allweddol yn cynnwys gweithio gyda'r canlynol:



- » Llywodraeth Cymru: y prosiect Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
- » Byrddau Rhanbarthol eraill: y gwaith o lunio Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- » Byrddau Diogelu'r DU: Digwyddiad Dysgu o Adolygiadau o Achosion Difrifol a dysgu ar y cyd
- » Partneriaethau Diogelwch Cymunedol: Adolygiadau Dynladdiad Domestig a datblygu strategaethau lleol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- » Grŵp Rhanddeiliaid y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol: Trefniadau Diogelu Amlasiantaeth
- » Y Comisiynydd Pobl Hŷn: Cyflwyniad yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu
- » Comisiynydd Heddlu a Throseddu: Prosiect Gweithredu'n Gynnar gyda'n Gilydd
- » Tîm PREVENT lleol
- » Stop It Now! Cymru: Sesiynau codi ymwybyddiaeth
- » Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
- » Chwaraeon Cymru
- » Carchar Ei Mawrhydi Berwyn
- » NSPCC
- » Barnardo's.

Dim ond un o'r Byrddau a gyfeiriodd at ymgysylltu neu gydweithio â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru neu Gomisiynydd Plant Cymru. Mae gan y ddau Gomisiynydd gyfrifoldebau allweddol o safbwynt gwarchod a hybu hawliau eu grwpiau poblogaeth penodol ac maent yn ymgysylltu'n helaeth â'u rhanddeiliaid. Mae diogelu ac atal camdriniaeth yn flaenoriaethau allweddol yn eu cynlluniau gwaith, felly mae'r diffyg hwn yn parhau'n anwaith a allai fod yn arwyddocaol o safbwynt llywio gwaith y Byrddau Rhanbarthol a dylanwadu ar flaenoriaethau diogelu cenedlaethol.

### **Unrhyw geisiadau y mae'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi'u gwneud i bobl gymwys dan adran 137(1) am wybodaeth benodedig, ac a gydymffurfiwyd â'r ceisiadau hynny**

Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu gwneud gan unrhyw un o'r Byrddau Rhanbarthol yn 2019-2020. Mae hynny'n golygu mai dim ond dwywaith y mae'r pŵer hwn wedi'i ddefnyddio ers 2016.

## Cyflawniadau'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn ystod y flwyddyn

Disgrifiodd pob un o'r rhanbarthau eu cyflawniadau mewn gwahanol ffyrdd yn eu hadroddiadau blynyddol. Disgrifiodd rhai eu holl gyflawniadau ynghyd â'r gwaith a oedd ar y gweill ganddynt yn rhan o naratif yr adroddiad, tra aeth eraill ati i dynnu sylw at gyflawniadau penodol o bwys neu ddisgrifio eu cyflawniadau allweddol mewn adran benodol yn eu hadroddiad.

### Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

Disgrifiodd Bwrdd Caerdydd a'r Fro ei gyflawniadau ym mhob rhan o naratif ei adroddiad, ac yn benodol yng nghyswllt pob un o'i flaenoriaethau a'r themâu a oedd wedi deillio o adolygiadau ymarfer. Soniodd y Bwrdd yn benodol am gyflawniadau eraill hefyd:

- » Roedd Wythnos Genedlaethol Diogelu 2019-2020 yn llwyddiant nodedig a chafodd ystod o ddigwyddiadau eu cynnal drwy gydol yr wythnos, a oedd yn amrywio o'r Gynhadledd Diogelu Plant flynyddol i'r Gynhadledd i Weithwyr Proffesiynol ar Ddiogelu Oedolion. Y themâu rhanbarthol ar gyfer eleni oedd cam-drin domestig a throseddau'n ymwneud â chyllyll/diwylliannau gangiau, a oedd yn cydfynd â rhai o'r themâu a oedd wedi deillio o waith a gyflawnwyd ar hyd y flwyddyn.
- » Digwyddiad lansio Gweithdrefnau Diogelu Cymru ddydd Llun 11 Tachwedd yng Nghaerdydd, a agorwyd gan Julie Morgan, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- » Gweithdy Cam-drin Domestig a gynhaliwyd ddydd Iau 14 Tachwedd ar gyfer ymarferwyr amlasiantaeth. Cafwyd anerchiad agoriadol gan Christine Grimshaw o Dîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru, a roddodd sylw i nifer o astudiaethau achos, gan ystyried ymarfer myfyriol.
- » Cafodd seremoni wobrwyo i gydnabod gwaith ym maes diogelu ei hagor gan Claire Marchant, Cyd-gadeirydd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro. Roedd y seremoni'n gyfle gwych i ddathlu amryw gyfraniadau rhagorol i waith diogelu mewn cyd-destun amlasiantaeth, ac i gydnabod yr holl waith caled gan staff sydd wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl.
- » Lansio Pecyn Sefydlu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro er mwyn sicrhau bod aelodau newydd yn cael gwybodaeth am eu rôl ar y Bwrdd Diogelu a'u bod yn deall y rôl honno.
- » Cwblhau strategaethau rhanbarthol: Camfanteisio / Hyfforddiant.
- » Cwblhau adroddiadau archwilio arbenigol: Adrodd ynghylch niwed a achosir gan friwiau pwyso / Fframwaith Ymholiadau Beirniadol / Defnyddio'r templed cronolegau amlasiantaeth.
- » Sefydlu cysylltiadau agos â thîm Prevent yng Nghaerdydd.
- » Gweithio ar y cyd ar Addysg Ddewisol yn y Cartref.

## Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

Tynnodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg sylw at ei gyflawniadau allweddol mewn adrannau a amlygwyd ym mhob rhan o'r adroddiad:

- » Ymgyrch Bramble – Ymchwiliad yn dilyn adroddiad am ddyn a aeth at ddau blentyn ac a geisiodd eu denu i mewn i'w gar. Yn dilyn ymchwiliad, cafodd y dyn a gâi ei ddrwgdybio ei adnabod a'i arestio. Wrth archwilio ei gyfrifiadur, gwelwyd bod ganddo hanes o gyflawni troseddau yn erbyn dros 100 o ddiodefwyr ledled y byd. Roedd y broses ddiogelu a oedd yn ofynnol yn yr achos hwn yn golygu llawer o rannu gwybodaeth a chynnal trafodaethau strategol, o ystyried faint o ddiodefwyr yr oedd yr achos yn ymwneud â nhw. Mae wedi amlygu'r gofynion penodol sy'n gysylltiedig â diogelu pobl rhag troseddau ar-lein, y mae eu nifer wedi cynyddu'n sylweddol.
- » Sylwadau a wnaed gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth i ddangos sut y gellir cyflawni canlyniadau cadarnhaol.
- » Mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau cysondeb yn y broses o drafod tactegau yn y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth, drwy lunio cynllun rheoli risg yn gynnar lle bo'n bosibl, ar ôl rhannu gwybodaeth. Mae gwaith a wneir mewn partneriaeth yn parhau i sicrhau bod proses y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn fwy effeithlon er mwyn gallu cael trafodaethau mwy cadarn yn y fforwm hwn, sy'n canolbwyntio ar yr achosion mwyaf cymhleth y mae'r risg fwyaf yn perthyn iddynt.
- » Mae cyflwyno Ymgyrch Encompass wedi bod yn gaffaeliad mawr i'r gwaith o rannu gwybodaeth ac i allu ysgolion i ddeall bywyd rhai o'u disgyblion gartref.
- » Dechreuodd Carn Ingli weithredu ym mis Tachwedd 2019. Mae'r cartref wedi bod yn darparu gofal a chymorth mewn cyddestun trawma i 5 o blant rhwng 8 ac 17 oed ers hynny.
- » Cymeradwyodd y Bwrdd ddogfen ranbarthol, sef Canllawiau ynghylch Cronolegau, sy'n cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i gwblhau cronolegau ar gyfer Paneli Adolygiadau Ymarfer Plant neu Oedolion. Mae'r adborth a gafwyd wedi bod yn gadarnhaol, a nodwyd droeon bod llinellau amser a gwblhawyd ar gyfer achosion yn llinellau amser cryno a'u bod yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau arwyddocaol.
- » Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi datblygu ac wrthi'n treialu system adrodd ynghylch pryderon am ddiogelu, gan ddefnyddio dyfeisiau iPad ar gyfer staff sy'n teithio o le i le a dyfeisiau pen desg ar gyfer pob aelod arall o staff er mwyn gwella safonau adrodd. Mae'r cyfleuster 'Docworks' yn galluogi staff sy'n ymdrin â digwyddiad yn y fan a'r lle i anfon adroddiadau ysgrifenedig yn uniongyrchol i dimau diogelu oedolion a phlant gwasanaethau cymdeithasol. Caiff copïau o'r adroddiadau diogelu eu cadw mewn 'canolfan ddogfennau' at ddiben cadw cofnodion. Mae hynny'n golygu ei bod yn bosibl sicrhau ansawdd a bod modd i aelodau timau diogelu gael gafael ar adroddiadau i'w helpu gydag unrhyw ymholiadau pellach.

*Parhad...*

## **Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg** (*parhad*)

- » Gweithredu trefn o sgrinio Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd ar y cyd rhwng Tîm Gofal Cymdeithasol Plant Pen-y-bont ar Ogwr, Heddlu De Cymru a Cymorth Cynnar, er mwyn rhoi cymorth cywir ar yr adeg gywir i blant a theuluoedd a lleihau nifer yr atgyfeiriadau 'dim camau pellach' sy'n cyrraedd gwasanaethau gofal cymdeithasol. Cafodd y gwaith sy'n parhau rhwng Heddlu De Cymru a Cymorth Cynnar er mwyn gwella'r graddau y nodir yn gynnar bod teuluoedd yn agored i niwed ei nodi'n enghraifft o arfer da yn adroddiad yr Arolygiaeth Gyfiawnder ym mis Chwefror 2019. Mae hynny wedi arwain at ddatblygiadau pellach wrth i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gael eu lleoli mewn canolfannau Cymorth Cynnar ac wrth i weithwyr yn y trydydd sector ymwneud â gweithgarwch 'drws ffrynt' gwasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth cynnar.
- » Cynhyrchodd Heddlu De Cymru animeiddiad i staff ynghylch digwyddiadau dysgu o adolygiadau ymarfer. Ei bwrpas oedd rhoi trosolwg o ddiben digwyddiad dysgu a beth i'w ddisgwyl. Mae'r adborth a gafwyd wedi bod yn gadarnhaol, ac mae'r animeiddiad yn cael ei ddefnyddio gan asiantaethau eraill hefyd erbyn hyn.
- » Animeiddiad am gamdriniaeth ddomestig: Bu pobl ifanc o Ferthyr Tudful yn gweithio gyda'r Bwrdd i gynhyrchu animeiddiad ar gyfer pobl ifanc er mwyn codi ymwybyddiaeth o drais a chamdriniaeth ddomestig gan blant a phobl ifanc tuag at rieni/gofalwyr. Y bwriad oedd paratoi pecyn cymorth i gyd-fynd â'r animeiddiad, a lansio'r animeiddiad drwy ddigwyddiad rhanbarthol. Yn anffodus, cafodd y digwyddiad ei ganslo oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Er gwaetha'r cyfyngiadau, roedd y bobl ifanc yn teimlo ei bod yn bwysig bod eu neges yn cael ei rhannu, felly cafodd yr animeiddiad ei lanlwytho i Facebook, Twitter ac amryw wefannau. Ar Twitter mae wedi arwain at 710 o argraffiadau, 5 achos o wylïo'r cyfrwng, cyfanswm o 36 achos o ymgysylltu, a 3 achos o aildrydar. Llwyddodd neges Facebook wreiddiol Fforwm Ieuenctid Ledled Bwrdeistref Merthyr Tudful, a oedd yn cynnwys yr animeiddiad, i gyrraedd 1,877 o bobl, cafodd ei rhannu 14 o weithiau ac arweiniodd at 5 achos o ymgysylltu. Mae ail neges y Fforwm, a oedd yn cynnwys yr animeiddiad, wedi cyrraedd 1,855 o bobl, wedi cael ei rhannu 8 o weithiau ac wedi arwain at 43 achos o ymgysylltu. Cafodd yr animeiddiad ei lanlwytho hefyd i dudalen y Bwrdd ar Facebook ac mae wedi'i weld 1,683 o weithiau. Yn olaf, mae'r animeiddiad wedi'i rannu â Llywodraeth Cymru, SafeLives, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Grŵp Comisiynwyr Dioddefwyr.

## Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gwent

Gwnaeth Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gwent gynnwys adran bwrpasol yn ei Adroddiad Blynyddol i sôn am ei gyflawniadau allweddol.

- » Bu'r Bwrdd yn gweithredu dan **drefniadau ar y cyd** ar gyfer oedolion a phlant, ac mae'n hyderus erbyn hyn ei fod wedi sefydlu'r trefniadau strategol newydd hyn yn briodol.
- » Cynhaliodd y Bwrdd **Gynhadledd i Bobl Ifanc** a agorwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru a chafodd pobl ifanc o ysgolion, grwpiau ieuencid a mudiadau gwirfoddol eu gwahodd ganddo i'r cyfle hwn i ymgynghori a chodi ymwybyddiaeth. Roedd y digwyddiad yn fodd i dros 25 o sefydliadau gynnig gwybodaeth ar stondinau y gallai pobl ifanc ymweld â nhw, a chynnig gweithdai i ddatblygu ymwybyddiaeth o fwlio a throseddau'n ymwneud â chyllyll.
- » Cafodd cynnwys terfynol **Cytundeb Partneriaeth Bwrdd Diogelu Gwent** – y cytundeb ar y cyd cyntaf, sydd newydd gael ei ddiwygio – ei gymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'n egluro'r ymrwymadau a wnaed gan sefydliadau ledled Gwent i gyflawni eu dyletswydd statudol i gydweithio er mwyn diogelu.
- » Cyhoeddodd y Bwrdd nifer o **adolygiadau**, a oedd yn cynnwys **un Adolygiad Ymarfer Plant, tri Adolygiad Ymarfer Oedolion ac un Adolygiad Ymarfer Oedolion – Domestig**. Cwblhaodd y Bwrdd waith dysgu o ddau Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth, gan rannu'r gwaith dysgu hwnnw. Comisiynodd y Bwrdd un Adolygiad Ymarfer Plant, un Adolygiad Ymarfer Oedolion – Domestig a thri Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth.
- » Cwblhaodd y Bwrdd ail **Adolygiad peilot Ymarfer Oedolion – Domestig** er mwyn parhau i symleiddio'r broses ar gyfer Adolygiadau Dynladdiad Domestig ar draws Gwent.
- » Mabwysiadodd y Bwrdd yn ffurfiol **Weithdrefnau Diogelu Cymru** yn fuan wedi iddynt gael eu lansio, a buddsoddodd yn sylweddol yn y broses weithredu. Arweiniodd hynny at gomisiynu sesiynau allanol rhannu gwybodaeth ar gyfer staff amlasiantaeth; datblygu a chyhoeddi canllawiau rhanbarthol atodol er mwyn cynorthwyo'r gwaith o wneud penderfyniadau; a dechrau'r broses o ddiwygio deunyddiau hyfforddiant a oedd ar gael eisoes.
- » Cafodd canllawiau rhanbarthol eu hadolygu/diwygio er mwyn ymdrin â gwaith diogelu oedolion a phlant ac er mwyn cydymffurfio â newidiadau deddfwriaethol.
- » Cwblhaodd y Bwrdd fframwaith perfformiad a fydd yn rhoi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd ynghylch trefniadau diogelu ar draws y rhanbarth. Roedd hynny'n cynnwys proses hunanasesu a gomisiynwyd er mwyn i asiantaethau aelodau'r Bwrdd adolygu a gwerthuso eu trefniadau diogelu eu hunain ac er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd, gan ddefnyddio'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu.

## Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru adran bwrpasol yn ei Adroddiad Blynyddol i sôn am ei gyflawniadau allweddol.

- » Cwblhau a chyhoeddi polisiau a strategaethau rhanbarthol:
  - Protocol ar gyfer Defnyddio Pwerau'r Heddlu dan Adran 46
  - Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Ymdrin â Digwyddiadau'n ymwneud â Diogelu Cymunedau a'r Cyhoedd (ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Rhanbarthol)
  - Llwybr Rhanbarthol Atal Hunanladdiadau
  - Lansio Protocol ar gyfer Rhannu Gwybodaeth.
- » Diwrnod Datblygu i'r Bwrdd Gweithredol.
- » Cydweithio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer yr Wythnos Ddiogelu,
- » Cynhadledd Rhanbarthol gyda'r Athro Eileen Munro i ddathlu'r model Arwyddion Diogelwch ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- » Cynhadledd Sir Benfro i Ddiogelwyr Ifanc.
- » 'Caffi Sgwrsio' wedi'i gynnal gan Gyngor Sir Penfro i lansio'r ymgyrch ar gyfryngau cymdeithasol a chodi ymwybyddiaeth o faterion allweddol a swyddogaethau'r Byrddau.
- » Cwrs hyfforddiant ynghylch Caethwasiaeth Fodern ar gyfer uwch-swyddogion Heddlu Dyfed-Powys/Gwasanaeth Erlyn y Goron.
- » Digwyddiad codi ymwybyddiaeth o seiberdroseddu yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.
- » Llythyr newyddion Hywel Dda ar gyfer yr hydref yn cynnwys erthyglau am gydgysgu, hunanesgeuluso a rhannu gwybodaeth, a oedd yn cyd-fynd â'r themâu rhanbarthol.
- » Lansio Ap Diogelu'r GIG yn ffurfiol.
- » Lansio llyfrynnau newydd ar gyfer hyfforddiant a chymhwysedd o ran diogelu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- » Sioe Deithiol Rhanbarthol ynghylch Twyll a Seiberdroseddu wedi'i chynnal ar draws ardal yr heddlu.
- » Negeseuon am ddiogelwch economaidd ar-lein wedi'u dosbarthu ar-lein.
- » Swyddogion Cyswllt ag Ysgolion wedi ymweld ag ysgolion i dynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â secstio a seiberfwlio.
- » Posterï'n codi ymwybyddiaeth o Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, rhannu gwybodaeth a hunanesgeuluso wedi'u harddangos mewn ysbytai ar draws Powys, a phosterï am gysgu'n ddiogel wedi'u harddangos mewn canolfannau geni.
- » Negeseuon wedi'u rhannu ddwywaith y dydd ar gyfrifon Diogelwyr Ifanc Sir Benfro ar gyfryngau cymdeithasol ynghylch themâu sy'n berthnasol i bobl ifanc.
- » Lansio polisi a gweithdrefn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.
- » Digwyddiadau 'paned a sgwrs' wedi'u hwyluso gan Fyrddau Iau Ceredigion a Phowys ar y thema secstio.
- » Noson pïtas a bowlïo wedi'i chynnal gan Ddiogelwyr Sir Benfro gyda phobl allweddol sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Sir Penfro, er mwyn cryfhau cysylltiadau a dileu rhwystrau.
- » Hyfforddiant ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ynghylch diogelu oedolion, sgamïau a diogelwch ar-lein.
- » Digwyddiad Dysgu am hunanesgeuluso gan bobl o bob oed wedi'i gynnal gan Hywel Dda.



## Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru

- » Tynnodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru sylw at ei gyflawniadau allweddol mewn adran bwrpasol yn ei Adroddiad Blynyddol.
  - » Adolygiad o Bartneriaethau: alinio blaenoriaethau amryw grwpiau dan ymbarél y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio, a fydd yn cynnwys Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a Chaethwasiaeth Fodern.
  - » Hyfforddiant a chymorth i gyflwyno Gweithdrefnau Diogelu Cymru.
  - » Rhaglen waith helaeth ynghylch rôl yr Ymarferydd Arweiniol/Ymchwiliadau Adran 126.
  - » Hyfforddiant sylfaenol ynghylch diogelu ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd.
  - » Digwyddiad hyfforddiant ynghylch Diogelu Cyd-destunol.
- » Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi bod yn rhoi cyflwyniadau i'r grwpiau cyflawni ymarfer rhanbarthol ynglŷn â'r diffyg atgyfeiriadau i'r gwasanaeth o Gymru.
  - » Datblygu gweithdrefnau/protocolau/canllawiau i gynorthwyo ymarferwyr:
    - Protocol ar gyfer rheoli amryw adroddiadau ynghylch digwyddiadau rhwng oedolion sy'n wynebu risg
    - Canllawiau amlasiantaeth i gynorthwyo gweithwyr y mae digwyddiadau tyngedfennol wedi effeithio arnynt
    - Ymdrin â safbwynt gwahanol
    - Trefniadau diogelu y tu allan i'r dalgylch
    - Canllawiau 'Beth sy'n Wahanol' i blant/oedolion.



## Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

Cyfeiriodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg at ei waith ym mhob rhan o'i adroddiad, yn benodol drwy gyfeirio at waith ei is-grwpiau a phob maes â blaenoriaeth. Ni thynnodd y Bwrdd sylw at unrhyw gyflawniadau penodol, felly mae'r pwyntiau canlynol wedi'u tynnu allan o'r naratif.

### Camfanteisio:

- » Ceir dealltwriaeth well o Ymddygiad Rhywiol Niweidiol ar draws y rhanbarth, ac mae hynny i'w briodoli i'r gwaith a gyflawnwyd yn ddiweddar gan Barnardo's a'r NSPCC.
- » Ceir llawer o sôn am gamfanteisio troseddol ar draws y rhanbarth, ac mae'r ddau awdurdod lleol wedi gweld cynnydd mewn cyfarfodydd strategaeth ar gyfer y math hwn o gamdriniaeth.
- » Ceir dealltwriaeth well o ddata meintiol am unigolion coll ar draws y rhanbarth.
- » Caiff data am gamdriniaeth ariannol ei gofnodi'n glir ar draws y ddwy ardal.
- » Datblygwyd y canllawiau ynghylch camfanteisio er mwyn cynorthwyo ymarferwyr, ac mae'r canllawiau wedi'u rhannu yn eang ar draws y rhanbarth.
- » Cafodd sesiwn 'myfyrio ac atgoffa' ei chynnal ym mis Hydref 2019 i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â hyfforddwyr am y polisi newydd ynghylch camfanteisio ac am ddatblygiadau eraill.

### Ansawdd a Pherfformiad:

- » Archwiliad adran 135 o asiantaethau partner/gwaith llenwi dangosfwrdd data.

### Polisiâu, gweithdrefnau ac ymarfer

- » Ym mis Ebrill 2019, cyfarfu'r Grŵp Monitro Polisiâu, Gweithdrefnau ac Ymarfer fel grŵp oedolion a phlant ar y cyd am y tro cyntaf, gyda chadeiryddion y grwpiau blaenorol yn ei gyd-gadeirio.
- » Yn 2019 newidiodd y Bwrdd i fod yn Fwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg, a chafodd grŵp gorchwyl a gorffen ei sefydlu i adolygu'r holl bolisiâu cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau a'u diwygio i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r Bwrdd.
- » Cafodd naw o bolisiâu eu hadolygu er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r Bwrdd Rhanbarthol eleni.
- » Gweithdrefnau Diogelu Cymru: cafodd grŵp ymgynghori ei sefydlu er mwyn sicrhau bod pawb a oedd yn ei fynychu'n cyfrannu at ddatblygu'r gweithdrefnau.
- » Datblygwyd pecyn cymorth i gynorthwyo adolygwyr a chadeiryddion Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion.

### Caethwasiaeth Fodern/Masnachu Pobl

- » Cafodd 4 cwrs eu cynnal yng Ngorllewin Morgannwg ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2019.

## Y graddau y mae pob aelod o'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi cyfrannu at effeithiolrwydd y Bwrdd

Roedd pob un o'r rhanbarthau yn cofnodi presenoldeb yr aelodau mewn cyfarfodydd, a'r rolau y gwnaethant ymgymryd â nhw, fel tystiolaeth o'u cyfraniad i'r Bwrdd. Roedd pedwar rhanbarth wedi cynnwys adroddiadau gan asiantaethau partner ynghylch eu cyfraniadau penodol nhw. Roedd anghysondebau amlwg, fodd bynnag, gan nad oedd holl bartneriaid y Bwrdd wedi darparu'r wybodaeth hon a bod rhai sefydliadau cenedlaethol yn cyfrannu adroddiadau mewn rhai rhanbarthau ond nid mewn rhanbarthau eraill. Prin iawn oedd y cyfraniadau gan fudiadau'r trydydd sector hefyd.

Roedd tri Bwrdd wedi disgrifio'r modd yr oedd cyfraniadau asiantaethau unigol i'r Bwrdd wedi cael eu hasesu a'u hadolygu. Roedd eu Diwrnod Datblygu blynyddol neu archwiliadau hunanasesu adran 135 yn ddulliau a oedd wedi'u defnyddio.

Cyfeiriodd dau Fwrdd yn benodol at yr adran 'Pynciau Llosg' yn eu cyfarfodydd, a oedd yn galluogi partneriaid i rannu materion sy'n peri pryder arbennig, a gwnaethant gyfeirio hefyd at nifer o gyflwyniadau penodol yr oedd eu haelodau wedi'u rhoi i'w Bwrdd.

Eleni, roedd Byrddau Gwent yn destun yr arolygiad ar y cyd cyntaf i'w gynnal yng Nghymru. Canlyniad yr arolygiad, a fu'n canolbwyntio ar achosion o gamfanteisio ar blant, oedd bod Byrddau Diogelu Gwent yn trefnu eu busnes mewn modd cydlynus ac yn cael cefnogaeth dda gan y grŵp amlasiantaeth. At hynny, canfu'r arolygiad ar y cyd fod manteision yn perthyn i'r trefniant Bwrdd Diogelu ar y cyd yng Ngwent o safbwynt rhannu gwybodaeth drawsbynciol a dysgu ar y cyd.

## Asesiad o sut y defnyddiodd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ei adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau a'i ganlyniadau

Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, roedd y rhan fwyaf o Fyrddau yn cydnabod nad oedd yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gefnogi gwaith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi'u cyfyngu i gyfraniadau ariannol yn unig gan asiantaethau partner statudol. At hynny, roeddent yn cydnabod bod yr aelodau'n cyfrannu cryn dipyn o'u hamser i gynorthwyo'r Byrddau a'u gwaith.

Roedd y Byrddau i gyd yn defnyddio'r fformiwla gyllido genedlaethol i asesu a nodi cyfraniadau ariannol blynyddol gan asiantaethau partner statudol. Ni chyhoeddodd hanner y Byrddau gyfanswm eu hincwm mewn termau ariannol. Disgrifiodd pump o'r chwe Bwrdd y cyfraniadau gan asiantaethau unigol ar ffurf canran o'r cyfanswm. Roedd y chweched Bwrdd wedi atal cyfraniadau gan ei bartneriaid statudol eleni er mwyn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd sydd ohoni. Defnyddiodd y Bwrdd hwnnw arian o'i gyllideb wrth gefn i dalu am wariant y Bwrdd eleni.

Wrth ystyried gwariant y Byrddau Rhanbarthol, roedd cyfanswm eu gwariant yn amrywio o £137,852 i £355,055. Cyfanswm y gwariant yn genedlaethol oedd £1,227,497, sydd £81,620 yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Ar lefel ranbarthol roedd gwariant tri o'r Byrddau yn fwy, roedd gwariant un Bwrdd yr un faint yn union â'i wariant yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac roedd gwariant dau Fwrdd yn llai. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg wedi cael eu had-drefnu yn golygu ei bod yn anos llunio cymariaethau uniongyrchol â'r llynedd.

Roedd cyfran fwyaf y gwariant ym mhob rhanbarth yn ymwneud â'r Unedau Busnes, ac roedd y costau'n amrywio o £102,202 i £288,655 eleni o gymharu ag £81,166 i £288,655 yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Roedd pedwar rhanbarth wedi cynnwys costau hyfforddiant yn eu gwariant ond nid oedd dau ranbarth wedi cynnwys eu cyllidebau ar gyfer hyfforddiant.

Dim ond dau ranbarth a oedd wedi cynnwys costau cynnal adolygiadau. Roedd un rhanbarth wedi cynnwys cost adolygiadau ymarfer plant ac roedd ail ranbarth wedi cynnwys cost adolygiadau ymarfer plant ac oedolion. Nid yw'n glir faint o adolygiadau a gynhaliwyd ym mhob achos.

Er bod y ffeithiau ynghylch incwm a gwariant wedi'u nodi, nid oedd yr adroddiadau'n cynnwys naratif o hyd ynghylch y rhesymeg ar gyfer yr incwm y gofynnwyd i asiantaethau amdano ac ynghylch y modd y penderfynwyd ar wariant yng nghyswllt cyflawni amcanion y Byrddau.

Ni wnaeth unrhyw Fwrdd gymharu cyfraniadau neu wariant eleni â chyfraniadau neu wariant y llynedd, ac ni wnaethant ddatgan a oedd gan ranbarthau orwariant neu danwariant ac a oedd ganddynt warged sy'n cael ei ddwyn ymlaen o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae hynny'n bwysig oherwydd roedd un Bwrdd wedi cronni gwarged a oedd yn ddigon mawr i ariannu gwaith y Bwrdd am flwyddyn gyfan. Er mwyn bod yn dryloyw i'r cyhoedd, dylai'r Byrddau Rhanbarthol ystyried cyhoeddi eu cyfrifon ariannol yn rhan o'u Hadroddiadau Blynyddol.

## **Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y cyflawnodd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ei swyddogaethau, fel y dangosir gan ddadansoddiad o achosion y mae wedi ymdrin â nhw, ac unrhyw newidiadau y mae wedi'u rhoi ar waith o ganlyniad**

Mae hynny'n cynnwys y gwersi a ddysgwyd o adolygiadau ymarfer plant ac adolygiadau ymarfer oedolion a gynhaliwyd gan Fyrddau Diogelu ac o adolygiadau, archwiliadau ac ymchwiliadau eraill.

Nid oedd pob Bwrdd yn disgrifio themâu penodol yn eu hadroddiadau, er iddynt adrodd bod y gwaith wedi'i wneud a bod themâu wedi'u nodi a'u trafod gan y Bwrdd. Gall y themâu a nodwyd yn yr adroddiadau gael eu grwpio i wyth maes cyffredinol:

1. Llais yr Unigolyn, sy'n cynnwys eiriolaeth/ galluedd meddyliol a chaniatâd
2. Rhannu gwybodaeth, a darlun holistaidd o fywyd unigolyn
3. Camfanteisio: camfanteisio'n rhywiol ar blant/rheolaeth drwy orfodaeth
4. Pwysigrwydd cofnodion cywir a manwl
5. Teuluoedd nad ydynt yn cydweithredu (neu sy'n rhoi'r argraff nad ydynt yn cydweithredu) / Cydymffurfio ffug
6. Hunanesgeuluso
7. Cyfathrebu – achosion trawsffiniol
8. Hyfforddiant – codi ymwybyddiaeth o waith diogelu/agweddau ar brosesau amddiffyn plant neu oedolion.

Yn ogystal, nododd y rhanbarthau rai materion penodol i achosion:

- » Gwersi o ymchwiliadau i wasanaethau lleol
- » Llwybrau pontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn
- » Iechyd meddwl plant
- » Cydgysgu'n ymwneud â sylweddau ac alcohol/gwerthu alcohol i oedolion sydd â gofal am fabanod a phlant ifanc.

## **Pryd a sut y bachodd plant ac oedolion ar gyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu a sut y cyfrannodd hynny at helpu'r Bwrdd i gyflawni ei ganlyniadau**

Ceir amrywiaeth mawr o hyd yn nulliau'r Byrddau o ymdrin â chyfranogiad, ond roedd pob rhanbarth wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid i ryw raddau eleni. Roeddent wedi gwneud hynny naill ai'n uniongyrchol fel Bwrdd neu drwy ddefnyddio trefniadau cyfranogi'r asiantaethau sy'n rhan ohonynt. Caiff rhai enghreifftiau eu rhestru isod ond, fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, ceir gwahaniaeth amlwg rhwng lefel y gweithgarwch gyda phlant a phobl ifanc a lefel y gweithgarwch gydag oedolion. Dim ond tri Bwrdd a roddodd enghreifftiau o waith ymgysylltu ag oedolion. Mae hon yn sefyllfa y mae angen i'r Byrddau fynd i'r afael â hi.

## **Enghreiffiau o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc**

- » Byrddau sydd â Byrddau Diogelu lau neu sy'n ymgysylltu â grwpiau ehangach eraill ar gyfer plant a phobl ifanc.
- » Datblygodd Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuentid Cenedlaethol Cymru adroddiad ar ran y Bwrdd ynghylch sut mae ymgorffori dulliau o gael plant a phobl ifanc i gymryd rhan/cynnwys plant a phobl ifanc.
- » Grwpiau ffocws pobl ifanc i ymgynghori ynghylch dulliau effeithiol a phriodol o gynnwys plant a phobl ifanc yn y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- » Arolwg i fesur i ba raddau y mae plant a phobl ifanc yn gwybod am fodolaeth y Bwrdd, ei bwrpas a'i ffrydiau gwaith.
- » Ymgynghori â phobl ifanc ynghylch eu profiadau o weithio gyda gwasanaethau, gan gynnwys ysgolion a gwasanaethau cymorth i deuluoedd.
- » Ymgynghori â thros 1,600 o bobl ifanc ynghylch materion yn ymwneud â diogelu, yn rhan o arolwg ar-lein lle nodwyd mai iechyd meddwl oedd y pwnc a oedd yn peri'r pryder mwyaf i bobl ifanc o ran diogelu.
- » Sesiynau wedi'u cynnal yn yr ysgol gyda grŵp o bobl ifanc agored i niwed er mwyn darganfod beth sy'n bwysig i'r bobl ifanc o safbwynt diogelu a sut y gallai'r Bwrdd ddarparu cymorth.
- » Byrddau wedi cynnal Cynadleddau i Blant a Phobl Ifanc.
- » Mae gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol Fwrdd Ieuentid yr ymgynghorir ag ef ynghylch unrhyw ddogfennau, polisiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â phlant. Cafodd aelodau'r Bwrdd Ieuentid eu gwahodd i gymryd rhan yn y gwaith amlasiantaeth a gyflawnwyd wrth baratoi ar gyfer yr Wythnos Genedlaethol Diogelu.

- » Ap digidol o'r enw 'Mind of My Own', sef ap digidol hollol hygyrch i alluogi plant a phobl ifanc i rannu eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau gan ddefnyddio adnodd digidol diogel. Caiff apiau 'Mind of My Own' eu dylunio a'u cynhyrchu yn gydwybodol gyda phobl ifanc ar gyfer pobl ifanc.
- » Mae dau berson ifanc wedi cofrestru fel arolygwyr ifanc, a byddant yn ymweld ag awdurdodau lleol ledled Cymru sy'n gwneud cais i ennill nod barcod ar sail y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad.
- » Bu dau berson ifanc yn gweithio ar ddatblygu sesiwn hyfforddiant i ofalwyr maeth, gan alw'r sesiwn yn 'Pe Baech Chi'n Fi'.

## Enghreifftiau o ymgysylltu ag oedolion

- » Cafodd nifer o straeon goroeswyr eu cyflwyno yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu.
- » Adran wedi'i chynnwys ar agenda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, a oedd yn dwyn y teitl 'Stori Defnyddiwr Gwasanaeth'.
- » Bu'r Tîm Cefnogi Newid yn ymgysylltu â'r teuluoedd mwyaf cymhleth er mwyn rhannu ffyrdd o weithio sydd, yn eu barn nhw, wedi bod fwyaf manteisiol iddynt ac er mwyn rhannu eu barn ynghylch sut y gellir datblygu'r gwasanaeth i sicrhau mwy o lwyddiant.
- » Mynychodd staff Gwasanaethau Oedolion grwpiau perthnasol er mwyn casglu eu barn.
- » Cafwyd adborth gan oedolion sy'n wynebu risg, er mwyn llywio'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu yn y dyfodol.
- » Cynhaliodd yr heddlu arolwg gyda dioddefwyr trais domestig er mwyn cael adborth am y gwasanaeth yr oeddent wedi'i gael.

## Nifer y Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion y gwnaed cais amdanynt yn ardal y Bwrdd Diogelu, faint o Orchmynion a wnaed a pha mor effeithiol yr oeddent

Mae Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn galluogi swyddog awdurdodedig, ac unrhyw berson arall a bennir yn y gorchmyn, i fynd i mewn i "fangre" i gael sgwrs breifat gydag oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod; canfod a yw'r person hwnnw'n gallu gwneud penderfyniadau o'i wirfodd; asesu a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg; a gwneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd. Yn eu diffiniad o "fangre" mae'r canllawiau statudol yn cynnwys mangre ddomestig, cartref gofal preswyl, cartref nyrsio, ysbyty neu unrhyw adeilad, adeiledd, cartref symudol neu garafán arall y mae'r person yn byw ynddo/ynddi.

Ni chafodd unrhyw geisiadau am Orchmyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ei wneud yng Nghymru eleni.

## Unrhyw wybodaeth neu waith dysgu a ddsbarthwyd gan y Bwrdd Diogelu, neu unrhyw hyfforddiant y mae wedi'i argymhell neu'i ddarparu

Mae gan bob Bwrdd is-grŵp hyfforddiant sy'n goruchwylio blaenoriaethau'r Bwrdd o ran hyfforddiant a'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen hyfforddiant ranbarthol ynghylch prosesau diogelu. Caiff hyfforddiant, gwersi a gwybodaeth ychwanegol eu rhannu mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- » Cynadleddau:
  - Diogelu Oedolion
  - Diogelu Cyd-destunol
  - Cynhadledd i Blant a Phobl Ifanc

- » Digwyddiadau Dysgu a Fforymau Ymarferwyr: Digartrefedd
- » Straeon Defnyddwyr Gwasanaeth: Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- » Sesiynau Briffio 7 Munud: Themâu a gwersi a ddysgwyd o adolygiadau
- » Hyfforddiant Digidol/Ar-lein:
  - Gwefan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol: Adroddiadau/Adolygiadau Ymarfer/ Archwiliadau
  - Animeiddiad codi ymwybyddiaeth o Adolygiadau Ymarfer
  - Fideo am ddiogelu a gynhyrchwyd gan bobl ifanc
  - Fideos a phodlediadau: Gweithdrefnau Diogelu Cymru
  - E-fwletinau: Cynllun Blynyddol/Adroddiad Blynyddol/Polisiau a gymeradwywyd/ Gwaith dysgu o adolygiadau o achosion/ Digwyddiadau
- » Digwyddiadau hyfforddiant ynghylch pynciau penodol:
  - Hyfforddiant ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion (i adolygwyr a chadeiryddion)
  - Camdriniaeth ddomestig
  - Llinellau Cyffuriau
  - Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth ar gyfer Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
  - Arwyddion Diogelwch
  - Gweithio gyda phlant sydd wedi profi trawma o ran datblygiad
  - Camfanteisio ar blant.

## **Sut y mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw gyfarwyddyd neu gyngor a roddwyd gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol**

Adroddodd y Byrddau Rhanbarthol eu bod yn gweithredu unrhyw gyfarwyddyd a chyngor a roddir gan Lywodraeth Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol. Er na roddodd rhai Byrddau unrhyw enghreifftiau penodol, tynnodd Byrddau eraill sylw at y cyfarfodydd bob chwarter â Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol fel dull o wneud hynny. Dyma enghreifftiau penodol a roddwyd:

- » Ymateb i ymgynghoriadau cenedlaethol ynghylch cynllun gweithredu cenedlaethol ynglŷn â chamfanteisio ar blant yn rhywiol, a chanllawiau statudol ynglŷn ag addysg ddewisol yn y cartref
- » Gofyn am gyngor gan Lywodraeth Cymru ynghylch rheoleiddio meithrinfeydd sy'n gweithredu am lai na dwy awr, ac anawsterau wrth geisio cydymffurfio â'r gofynion o ran hyfforddiant sy'n gysylltiedig â 'Gofyn a Gweithredu'
- » Defnyddio cynllun gwaith y Bwrdd Cenedlaethol, ei adroddiad blynyddol a'i ddadansoddiad thematig o adolygiadau ymarfer plant i ddylanwadu ar rywfaint o'r gwaith a wnaed yn ystod diwrnod datblygu'r Bwrdd.



## Materion eraill sy'n berthnasol i waith y Bwrdd Diogelu

Adroddodd y rhanbarthau ynghylch materion a oedd o bwys penodol iddyn nhw. Tynnodd dau ranbarth sylw at adolygiadau o'u swyddogaethau, eu trefniadau llywodraethu a strwythurau eu Bwrdd/Byrddau, a oedd wedi arwain at newidiadau i'r modd yr oeddent yn gweithio.

Mae dau ranbarth wedi bod yn myfyrio ynghylch pa wahaniaeth yr oedd y Byrddau ar y cyd yn ei wneud a sut y mae polisiâu, gweithdrefnau a hyfforddiant naill ai'n gwella neu'n newid ymarfer.

Yn benodol, nododd un ranbarth yr effaith yr oedd y pandemig byd-eang a ddaeth i'r amlwg mor fuan ar ôl y llifogydd ym mis Chwefror 2020 wedi'i chael ar wasanaethau ar ddiwedd y flwyddyn yr oedd yn adrodd yn ei chylch.

## Materion ychwanegol i adrodd yn eu cylch

Yn ogystal â nodi'r trefniadau diogelu a ddisgrifir yn Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Rhanbarthol, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol dynnu sylw hefyd at enghreifftiau o rannu adnoddau a rhannu gwybodaeth am waith dysgu rhwng Byrddau Diogelu o fewn ardal Bwrdd Diogelu neu rhwng Byrddau Diogelu ar draws Cymru.

## Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Cafodd Gweithdrefnau Diogelu Cymru eu lansio yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu ar 11 Tachwedd 2019, ac maent wedi cymryd lle Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a Pholisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio rhag cael eu Cam-drin.

Nid yw Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael mewn print; dim ond mewn fformat digidol y maent ar gael. Mae Ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i'w lawrlwytho ar ddyfeisiau iPhone ac Android, drwy siop apiau Apple a siop Google Play. Gellir hefyd eu gweld yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy ddilyn y dolenni cyswllt canlynol: [www.diogelu.cymru](http://www.diogelu.cymru) [www.safeguarding.wales](http://www.safeguarding.wales)

Mae lansio'r gweithdrefnau hyn yn garreg filltir o bwys i Gymru ac mae'r gweithdrefnau a'r ap wedi cael ymateb da. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro fu'n arwain y gwaith o ddatblygu a lansio'r gweithdrefnau, a gall y Bwrdd hwnnw ynghyd â gweddill Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru fod yn falch iawn o'r llwyddiant hwn, yn gywir ddigon.

## **Gwaith dysgu a rennir**

Cyfarfu pob un o Reolwyr y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn rheolaidd i rannu arfer da, trafod meysydd i'w datblygu a nodi tueddiadau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg ym maes diogelu. Buont yn cydweithio hefyd i gynllunio'r Wythnos Genedlaethol Diogelu gan ddatblygu themâu rhanbarthol a rhannu arfer da.

Rhannwyd gwybodaeth yn rheolaidd am Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion er mwyn sicrhau bod y gwaith dysgu'n cael ei ledaenu ar draws y rhanbarthau.

## **Adnoddau a rennir**

Lluniodd pob rhanbarth un Adroddiad Blynyddol a oedd yn ymdrin â gwaith ei Fwrdd Oedolion a'i Fwrdd Plant. At hynny, mae gan bob un ohonynt drefniadau rheoli busnes a rennir ac a ariennir ar y cyd.

Mae'r holl Fyrddau yn gweithio ar drefniadau llywodraethu ar y cyd rhwng eu Bwrdd Oedolion a'u Bwrdd Plant, a chaiff hynny ei adlewyrchu yn strwythur eu his-grwpiau ac mewn enghreifftiau niferus o grwpiau plant ac oedolion ar y cyd.

# Argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella trefniadau diogelu

Cafodd pedwar argymhelliad i Weinidogion Cymru eu gwneud gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol y llynedd yn ein hadroddiad blynyddol. Roedd dau o'r argymhellion hynny'n ymwneud, yn gyntaf, â chreu storfa genedlaethol o adolygiadau diogelu ac ymgorffori dysgu peirianyddol mewn adnodd cynaliadwy ar gyfer y tymor hir ac, yn ail, comisiynu dadansoddiad thematig o bob adolygiad diogelu bob dwy flynedd. Mae'r argymhellion hyn wedi'u hymgorffori yn y gwaith a arweinir gan Lywodraeth Cymru ar greu proses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl i Gymru. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn cyfrannu i'r gwaith hwnnw, ac felly bydd yn monitro'r modd y bydd yr agweddau hyn ar y prosiect yn cael eu cwblhau a'u gweithredu.

Nid yw'r ddau argymhelliad arall wedi'u gweithredu eto ac maent yn dal yn berthnasol, felly cânt eu hailadrodd isod:

## Diogelu oedolion sy'n wynebu risg

O'n dadansoddiad ni o Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Rhanbarthol mae'n amlwg bod y trefniadau ar gyfer diogelu oedolion sy'n wynebu risg wedi'u datblygu i raddau llai na'r trefniadau ar gyfer diogelu plant. Mae'n amlwg hefyd nad oes data na gwybodaeth ddigonol ar gael am achosion o gam-drin pobl hŷn yng Nghymru. Caiff y farn hon ei hategu gan waith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a chaiff ei hamlygu yn ei hadroddiad Cyflwr y Genedl (Hydref 2019).

## Argymhelliad 1

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Canllawiau Technegol y Fframwaith Perfformiad Gofal Cymdeithasol yn cynnwys gwybodaeth am achosion o gam-drin pobl hŷn, trwy gasglu data sydd wedi'i ddadansoddi yn ôl grŵp oedran.**

## O weithgarwch i berfformiad

Darparodd yr holl Fyrddau ddata ynghylch eu gweithgarwch diogelu ond ychydig o waith dadansoddi, os o gwbl, a wnaed ynghylch beth yr oedd hynny'n ei olygu, sut yr oedd yn rhoi sicrwydd i Fyrddau ynghylch ansawdd eu trefniadau diogelu neu sut yr oeddent yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth i lywio unrhyw gynlluniau gwella.

Dyma'r drydedd flwyddyn i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol argymhell i'r Gweinidogion y dylai'r Byrddau Rhanbarthol, y Bwrdd Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru nodi mesurau sy'n datgelu rhywbeth am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu, a chytuno ar y mesurau hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y bydd y gwaith hwn yn cael ei gomisiynu gan y Bwrdd Cenedlaethol yn rhan o'i raglen waith ar gyfer 2020-2021 ond nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau eto.

## Argymhelliad 2

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu Fframwaith Perfformiad ar gyfer Diogelu yng Nghymru.**

## Diogelu ym maes addysg

Mae angen o hyd am newid statudol er mwyn gwarchod hawliau plant i leoliadau a darpariaeth addysgol a ddiogelir yn briodol, a dylai hynny gynnwys gwranddo ar eu barn am addysg a'u profiadau o addysg mewn pob math o leoliadau. Cafodd yr angen hwn am newid polisi ei adlewyrchu gan yr adroddiad ynghylch addysg yn y cartref yn 2017, a gomisiynwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ac a oedd yn argymhell y dylid cadw cofrestr o bob plentyn sy'n cael addysg yn y cartref ac y dylai plant gael eu gweld bob blwyddyn.

Er gwaetha'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2019, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru yn ddiweddar y penderfyniad i atal cyhoeddi'r Canllawiau Statudol ynghylch Plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru. Mae'r penderfyniad hwn yn un sy'n peri pryder mawr i'r Bwrdd Cenedlaethol a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol. At hynny, o ganlyniad i'r penderfyniad hwnnw, mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cyhoeddi'r bwriad i gynnal adolygiad o swyddogaethau'r Llywodraeth o safbwynt yr agwedd hon ar waith llunio polisi. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn croesawu ac yn cefnogi safbwynt y Comisiynydd.

---

### Argymhelliad 3

**Dylai Llywodraeth Cymru bennu amserlen ar frys ar gyfer cyhoeddi'r Canllawiau Statudol ynghylch Plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru.**

Yr ail fater o bwys o ran diogelu ym maes addysg ar hyn o bryd yw'r ffaith nad yw'n ofynnol i athrawon mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r sawl sy'n addysgu neu sy'n cyflawni rolau tebyg mewn ysgolion gwladol ledled Cymru gofrestru gyda'r Cyngor. At hynny, mewn achos lle mae unigolyn yn gweithredu'n groes i'r gofynion sylfaenol, ni chaiff athrawon mewn ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan yr un ystyriaethau a'r un rheoliadau â'r athrawon a gaiff eu cyflogi yn y sector gwladol.

Mae'n siomedig tu hwnt bod y mater hwn wedi'i ddwyn i sylw Llywodraeth Cymru mor gynnar â 2015 a bod y bwloch mawr hwn rhwng y rheoliadau diogelu sylfaenol yn parhau fel yr oedd er gwaethaf ymrwymiad Gweinidogol cadarn yn flaenorol y byddai'r mater yn cael sylw yn y rhaglen lywodraethu.

---

### Argymhelliad 4

**Dylai Llywodraeth Cymru anrhydeddu'r ymrwymiad a wnaed i ddiwygio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ysgolion annibynnol a Chyngor y Gweithlu Addysg i gynnwys gofyniad y dylai pob aelod o staff addysgu a thimau arwain lleoliadau annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.**

---

### Rôl a swyddogaeth y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, bydd y Bwrdd Cenedlaethol hwn hanner ffordd drwy ei dymor o dair blynedd a bydd bron bum mlynedd wedi pasio ers i'r Bwrdd Cenedlaethol cyntaf ddechrau ar ei waith. Fel Bwrdd, felly, rydym yn teimlo ei bod yn amserol ac yn angenrheidiol i Lywodraeth Cymru adolygu rôl a swyddogaeth y Bwrdd nesaf a'r trefniadau ar gyfer penodi ei aelodau, er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau ynglŷn â'r Bwrdd yn cyd-fynd â'r realiti.

---

### Argymhelliad 5

**Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o ddyfodol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn benodol er mwyn ystyried:**

- **Rôl a swyddogaeth y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol: Y disgwyliadau o'u cymharu â chapasiti**
- **Adnoddau: adnoddau ariannol, ymrwymiad aelodau'r Bwrdd o ran amser, a chymorth gweinyddol**
- **Trefniadau pontio o'r naill Fwrdd i'r Bwrdd nesaf**
- **Amseru'r broses ar gyfer penodiadau cyhoeddus er mwyn sicrhau nad oes bwloch rhwng Byrddau.**



**Bwrdd Diogelu Annibynnol  
Cenedlaethol Cymru**

**National Independent  
Safeguarding Board Wales**



## **Dysgwch fwy**



[www.bwrdddiogelu.cymru](http://www.bwrdddiogelu.cymru)



[@NISBwales](https://twitter.com/NISBwales)



[safeguardingwales](https://www.facebook.com/safeguardingwales)

